Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Uchelgais Newydd i Gymru

Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2027-28 i 2029-30

llyw.cymru

OGL
© Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru
WG55443 ISBN digidol 978-1-80853-758-5

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Rhagair



Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Y Gweinidog Cabinet dros Gyllid

Mae cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft hon yn foment hanesyddol yn ein gwleidyddiaeth – cyllideb a gyflwynir gan lywodraeth newydd sydd â mandad gwirioneddol ar gyfer newid ac uchelgais newydd i Gymru.

Dyma'r cyfle cyntaf i fuddsoddi yn y chwe blaenoriaeth yn ein Rhaglen Lywodraethu: adeiladu gwasanaeth iechyd a gofal sy'n addas ar gyfer y dyfodol, helpu aelwydydd â chostau byw, gwireddu potensial economi Cymru, codi safonau mewn ysgolion, mynd i'r afael â thlodi plant, a sefyll dros Gymru.

Yn wyneb setliad cyllideb eithriadol o anodd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn rhoi sicrwydd ac amddiffyniad i'n gwasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun ansicrwydd economaidd, costau cynyddol a phwysau gwario. Mae hefyd yn wahanol i'r gorffennol o ran sut rydym yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus, yn blaenoriaethu adnoddau lle byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf ac yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl a chymunedau.

Rydym yn buddsoddi'r arian ychwanegol sydd ei angen ar y GIG i fynd i'r afael â phwysau a rhestrau aros, gan ysgogi newid sylweddol mewn cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ar yr un pryd. Byddwn yn ariannu'r cynlluniau i ehangu ein cynnig gofal plant, fel bod modd i fwy o deuluoedd fanteisio ar y buddsoddiad trawsnewidiol hwn a chael budd ohono. Rydym yn ariannu ein cynllun peilot Cynnal, fel y cam cyntaf yn y gwaith o fynd i'r afael â melltith tlodi plant yn ein gwlad. Ac rydym yn defnyddio'r ysgogwyr economaidd sydd ar gael inni mewn ffordd hollol wahanol, gan sefydlu a darparu adnoddau i'r asiantaeth newydd, Asiantaeth Arloesi a Datblygu Cymru, i ysgogi twf economaidd.

Rydym yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn mewn sefyllfa gyllidebol sy'n eithriadol o heriol.

Mae ein setliad cyllid yn dal i gael ei osod gan San Steffan yn bennaf. Daw'r gyllideb hon ar ôl Cyllideb Hydref y Deyrnas Unedig, a anwybyddodd anghenion pobl Cymru. Nid oedd y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru yn gwneud iawn am effaith chwyddiant uwch ar ein gwasanaethau cyhoeddus.

Nid yw'r holl offer cyllidol sydd eu hangen arnom ar gael inni, ac mae cyfyngiadau cyllidol mympwyol yn cyfyngu ar ein gallu i weithredu. Mae ein pwerau benthyca cyfalaf yn annigonol i leddfu'r gostyngiad o 10% mewn termau real yn ein setliad cyfalaf dros y blynyddoedd i ddod.

Ond ni fydd y cyfyngiadau cyllidol a'r toriadau cyllideb a osodwyd arnom gan Lywodraeth y DU yn taflu cysgod ar ein huchelgeisiau. Mae'r gyllideb hon yn mynd ati'n wahanol – dyma newid llwyr. Mae gweinidogion a'u swyddogion wedi edrych ar bob rhan o'u portffolios, gan adolygu dros 970 o raglenni cyllidebol, a chan asesu'r canlyniadau a gyflawnir ganddynt a sut maent yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau a'n hamcanion.

Yn rhy aml, mae'r rhai ohonom sy'n credu yng ngwerth gwasanaethau cyhoeddus wedi gadael i'r naratif ynghylch effeithiolrwydd lithro o'n meddiant. Bydd y gyllideb hon yn ysgogi effeithlonrwydd, yn gwella cynhyrchiant, ac yn dechrau ymdrech go iawn i leihau costau gweinyddu'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach.

Dylai atal ac ymyrryd yn gynnar gael eu gweld nid yn unig fel amcan polisi cymdeithasol, ond hefyd fel strategaeth gyllidol. Bydd ein Cronfa Trawsnewid y Sector Cyhoeddus yn llywio'r dull newydd hwn.

O ystyried y sefyllfa anodd o ran y gyllideb, mae'n anochel bod adrannau, Cyrff Hyd Braich a sefydliadau eraill a ariennir yn wynebu setliadau heriol, ond byddwn yn gweithio gyda nhw i sicrhau gwell effeithlonrwydd, lleihau costau gweinyddu a symud adnoddau i swyddogaethau cyflenwi rheng flaen. Nid arbed ceiniogau am resymau ideolegol yw hyn, ond yn hytrach sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer pob punt o wariant cyhoeddus a mynnu rhagoriaeth ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. O hyn ymlaen, mae'r ffocws yn symud o faint sy'n cael ei wario i sut mae'n cael ei wario.

Os yw'r rhifyddeg gyllidol wedi golygu bod angen inni arfer dull disgybledig a dyfeisgar wrth lunio'r Gyllideb hon, mae rhifyddeg y Senedd hefyd wedi galw am gydweithredu â phleidiau gwleidyddol eraill. Drwy ymgysylltu cynnar ac adeiladol â'r Blaid Werdd, rydym wedi datblygu dau gynnig sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb heddiw, sef y Gronfa Gwydnwch Hinsawdd a buddsoddiad mewn clybiau ceir trydan cymunedol.

Mae'r Gyllideb hon hefyd yn gadael pot sylweddol o gyllid heb ei ddyrannu, sy'n creu lle ar gyfer trafodaethau ystyrlon pellach â phleidiau eraill dros yr wythnosau nesaf. Rydym yn rhannu nodau cyffredin â phleidiau eraill yn y Siambr, a bydd y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwn yn y Gwanwyn yn ceisio adlewyrchu barn y Senedd.

Rydym yn deall maint yr her y mae rhaid i'r Gyllideb hon ddechrau mynd i'r afael â hi. Yr etifeddiaeth a adawyd inni – gwasanaethau cyhoeddus sy'n tanberfformio a phwysau gwario enfawr. Cleifion yn aros yn rhy hir am driniaethau. Rhieni'n talu gormod am ofal plant. Creithiau tlodi yn difetha dyfodol ein plant.

Ni fydd y Gyllideb hon yn datrys y problemau hynny mewn un flwyddyn, ond gydag uchelgais newydd a ffordd newydd o weithio, gallwn osod cyfeiriad newydd i Gymru.

Adran 1
Ein Diben

“Mae’r Gyllideb hon yn dechrau’r gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru, ailosod blaenoriaethau a buddsoddi ein hadnoddau yn y newid yr ydym am ei gyflawni.”

Cyflwyniad

Dyma Gyllideb Ddrafft gyntaf Llywodraeth Plaid Cymru. Mae'n nodi cyfeiriad ac uchelgais newydd i Gymru, gan ddechrau'r gwaith o wneud yn siŵr bod ein hadnoddau'n cyd-fynd â'n nodau yn ein Rhaglen Lywodraethu newydd i gryfhau gwasanaethau cyhoeddus, tyfu ein heconomi a gwella bywydau pobl.

Cyllideb amlflwyddyn yw hon, sy'n nodi dwy flynedd o gynlluniau gwario adnoddau a thair blynedd o fuddsoddiad cyfalaf. Dros y cyfnod a gwmpesir gan y Gyllideb Ddrafft hon, byddwn yn buddsoddi mwy na £60 biliwn yng Nghymru i sicrhau ein bod yn lleihau rhestrau aros, yn cefnogi teuluoedd â chostau byw, yn creu swyddi sy'n talu'n dda, yn codi safonau addysgol, ac yn mynd i'r afael â thlodi plant. Mae'r dull tymor hwy hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i'n gwasanaethau cyhoeddus ac i'n partneriaid, gan ganiatáu inni ddechrau ail-lunio buddsoddiad o amgylch blaenoriaethau ein Llywodraeth newydd.

Rydym yn dechrau'r daith honno mewn amgylchiadau ariannol eithriadol o anodd. Mae ein cyllid adnoddau 0.5% yn is mewn termau real na'r llynedd a rhagwelir y bydd ein cyllid cyfalaf yn gostwng 9.6% mewn termau real dros y cyfnod. Mae hyn ar adeg pan mae'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn uchel, a chwyddiant cynyddol yn parhau i roi pwysau ar adnoddau cyfyngedig. Allwn ni ddim amddiffyn pob rhaglen neu wasanaeth rhag yr heriau hynny, ac mae'r realiti hwnnw wedi ei gwneud yn ofynnol i ni wneud dewisiadau.

Ein blaenoriaeth gyntaf wrth lunio'r Gyllideb Ddrafft hon oedd amddiffyn a gwella'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt fwyaf. Rydym wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer y GIG ochr yn ochr â llywodraeth leol, gan roi cynnydd uwch na chwyddiant yn y cyllid sydd ar gael i'r ddau. Mewn cyllideb lle mae'r setliad adnoddau cyffredinol yn gostwng mewn termau real, mae canlyniadau i'r dewis hwnnw. Mae rhoi mwy o amddiffyniad i'r gwasanaethau hanfodol hyn wedi golygu gwneud penderfyniadau anodd mewn mannau eraill.

Ond mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn ymwneud â mwy na rheoli setliad anodd. Dyma ffordd newydd o ariannu cyflenwi yng Nghymru a gwneud pethau'n wahanol i'r gorffennol. Mae ein blaenoriaethau yn wahanol, ond rydym hefyd eisiau newid sut rydym yn meddwl am wariant cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n agosach ar y canlyniadau y mae'n eu cyflawni, herio ffyrdd sefydledig o wneud pethau, a bod yn barod i symud adnoddau pan all dull gweithredu gwahanol gyflawni canlyniadau gwell.

Fe wnaethom addo cynnal adolygiad cyflym o wariant y llywodraeth, ac rydym wedi cyflawni'r ymrwymiad hwnnw. Fel Cabinet, rydym wedi archwilio'r gwariant ar draws pob maes llywodraeth, gan herio'r ymrwymiadau presennol a gofyn a yw'r adnoddau yn cael eu cyfeirio at ble y gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf. Nid ymarfer i ddod o hyd i arbedion yn unig yw hyn. Mae'n angen gwneud dewisiadau: diogelu'r hyn sydd fwyaf pwysig, stopio neu leihau gwariant pan nad yw'n gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus bellach, a gwneud lle ar gyfer blaenoriaethau newydd.

Rydym wedi gwneud y dewisiadau hynny ar y cyd fel llywodraeth, gan edrych y tu hwnt i bortffolios unigol i ddeall yr hyn y mae Cymru gyfan ei angen gennym ni. Fel Cabinet, rydym wedi gwneud penderfyniadau

gyda'n gilydd ynghylch ble gall adnoddau wneud y gwahaniaeth mwyaf, gan greu'r lle i fuddsoddi yn ein blaenoriaethau cyffredin.

Mae ein hagwedd at gyfalaf wedi bod yr un mor bwrpasol. Rydym wedi adeiladu ein cynlluniau cyfalaf o sylfaen sero, gan brofi buddsoddiad yn erbyn blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu newydd yn hytrach na dim ond cario dyraniadau blaenorol ymlaen. Felly, yn y Gyllideb hon mae buddsoddiad cyfalaf yn gydnaws â chyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, gan barhau i gefnogi'r canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach a nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Mae hyn yn bwysig oherwydd nad yw buddsoddiad ar ei ben ei hun yn ddigon. Er gwaethaf buddsoddiad cyhoeddus sylweddol dros nifer o flynyddoedd, mae rhai o'r heriau sydd wedi hen ymwreiddio yng Nghymru yn parhau ac, mewn meysydd fel tlodi, maent wedi gwaethygu. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn ystyried faint rydym yn ei wario, ond hefyd a yw'r gwariant hwnnw'n gwneud y gwahaniaeth rydym angen iddo ei wneud.

Mae'r egwyddor honno yn ganolog i'n dull o ymdrin â'r Gyllideb Ddrafft hon. Fel gwarcheidwaid arian cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb i wneud y defnydd gorau posibl o bob punt. Mae'r ddyletswydd honno yn bodoli mewn unrhyw hinsawdd ariannol, ond mae'n bwysicach nag erioed pan fydd adnoddau'n gyfyngedig.

Nid yw pob llinell yn y gyllideb yn dangos gostyngiad, ond ar draws pob maes o'r sector cyhoeddus byddwn yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd. Rydym am leihau costau gweinyddu lle bynnag y bo modd, cael gwared ar ddyblygu a symud cymaint o adnoddau ag y gallwn o'r swyddfa gefn i'r rheng flaen. Nid yw effeithlonrwydd mor syml â gwario llai; mae'n ymwneud â sicrhau canlyniadau gwell o'r ffordd y defnyddir adnoddau.

Yn ystod tymor y Llywodraeth hon byddwn yn symud mwy o'n hadnoddau tuag at atal ac ymyrraeth gynharach. Yn rhy aml mae gofyn i wasanaethau cyhoeddus ymateb pan fydd problemau wedi dod yn fwy difrifol, yn anoddach ac yn ddrutach i'w datrys. Bydd newid hynny yn cymryd amser. Mae'r pwysau uniongyrchol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn golygu na allwn symud adnoddau i ffwrdd o anghenion acíwt dros nos, ac nid yw'r Gyllideb Ddrafft yn esgus cwblhau'r newid hwnnw. Mae'n dechrau sefydlu'r dull y byddwn yn ei ddilyn yn ystod gweddill tymor y llywodraeth hon ac yn dechrau'r gwaith o addasu ein buddsoddiad tuag at ddulliau ataliol.

Y Gyllideb Ddrafft hon yw'r cam cyntaf o ran cytuno ar ein cynlluniau gwario. Bydd y Senedd nawr yn mynd ati i graffu arni, a byddwn yn gwrando'n ofalus ar ganlyniadau'r craffu hwnnw cyn cyflwyno ein Cyllideb Derfynol.

Rydym yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni. Ni all y Gyllideb hon gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu gyfan ar unwaith, ac ni all ddatrys yr heriau hirsefydlog sy'n wynebu Cymru dros nos. Ond nid yw'r amgylchiadau ariannol anodd yn lleihau ein huchelgais. Mae'r Gyllideb hon yn sefydlu'r sylfeini ar gyfer dull gweithredu newydd. Mae'n diogelu'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt fwyaf, yn dechrau symud adnoddau tuag at flaenoriaethau ein Llywodraeth newydd, yn ein herio i sicrhau bod arian cyhoeddus yn gweithio'n galetach ac yn dechrau'r dasg hirdymor o symud buddsoddiad tuag at atal a chanlyniadau gwell.

" Dyma fan cychwyn y daith hon. Mae'n ailosod y cyfeiriad mewn ffordd uchelgeisiol, ar sail realiti'r adnoddau sydd ar gael inni, ond gan ganolbwyntio'n gadarn ar y Gymru yr ydym am ei hadeiladu. Drwy wneud dewisiadau gwahanol, defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd wahanol a chanolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf, mae'r Gyllideb Ddrafft yn gwneud cynnydd nawr ac yn gosod y sylfeini hefyd ar gyfer newidiadau mwy dros y blynyddoedd i ddod."

Dull Llywodraeth Gyfan

Rydym wedi mynd ati'n fwriadol i strwythuro Adroddiad y Gyllideb mewn modd sy'n adlewyrchu'r ffordd yr ydyn am i'r llywodraeth weithio: o amgylch y canlyniadau yr ydym am eu cyflawni, yn hytrach na'r ffiniau rhwng portffolios unigol. Nid yw'r heriau sy'n wynebu Cymru yn perthyn yn daclus o fewn adrannau unigol, ac felly ni ddylai ein hymateb iddynt wneud hynny chwaith.

Felly, mae Adran 2 yn dwyn ynghyd y buddsoddiadau adnoddau, cyfalaf, a chyfalaf trafodiadau ariannol yr ydym yn eu gwneud ar draws y llywodraeth o ran ein blaenoriaethau cyffredin, gan ddangos sut mae gwahanol rannau o'r llywodraeth yn cyfrannu at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

Nid yw'r dull Cabinet cyfan yr ydym wedi'i ddefnyddio yn lleihau cyfrifoldeb Gweinidogion unigol am y cyllidebau a'r penderfyniadau o fewn eu portffolios. Mae Adran 3 yn nodi'r dyraniadau yn ôl Prif Grŵp Gwariant (MEG), tra bod tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BELs) a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'n cynlluniau gwario.

Nid yw'n fwriad yn Adroddiad y Gyllideb Ddrafft i geisio disgrifio pob buddsoddiad unigol sy'n cael ei wneud ar draws y llywodraeth. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y tablau hynny a byddant hefyd yn cael eu darparu yn y dystiolaeth a gyflwynir i Bwyllgorau'r Senedd fel rhan o'u gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Mae'r tabl yn Atodiad C yn crynhoi sut y bydd ein buddsoddiadau yn cyflawni canlyniadau allweddol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Gyda'i gilydd, mae dogfennau'r Gyllideb sy'n cael eu cyhoeddi heddiw yn darparu golwg glir ar ddiben y Llywodraeth hon, drwy'r buddsoddiadau yr ydym yn eu gwneud, a'r dyraniadau manwl fydd yn cael eu defnyddio i'w cyflawni.

Adran 2
Ein Buddsoddiadau

“Rydym yn buddsoddi yng ngwasanaethau, pobl a chymunedau Cymru, gan ddiogelu’r hyn sydd bwysicaf wrth ddechrau cyflawni blaenoriaethau ein Llywodraeth newydd.”

Datblygu gwasanaeth iechyd a gofal sy'n addas ar gyfer y dyfodol, a thorri rhestrau aros

Poblogaeth iach yw sylfaen economi gryfach a Chymru ffyniannus. Ein blaenoriaeth uniongyrchol yw datblygu gwasanaethau cynaliadwy a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y diagnosis a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt yn gyflymach. Ond rhaid i ymateb i'r pwysau sy'n wynebu'r GIG heddiw fynd law yn llaw ag adeiladu system iechyd a gofal sy'n gynyddol gynhyrchiol ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Gyllideb hon yn blaenoriaethu'r GIG mewn amgylchiadau ariannol eithriadol o anodd. Rydym yn darparu cyllid sylweddol i gefnogi gwasanaethau rheng flaen, cefnogi gallu diagnostig a thriniaeth a dechrau rhoi cyllid y GIG ar sail fwy cynaliadwy. Bydd ein buddsoddiad yn helpu sefydliadau iechyd i ymateb i alw anochel a chynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant, ynghyd â chymhlethdod cynyddol, ac yn diogelu mynediad at ofal hanfodol. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi camau gweithredu i gynnal a gwella mynediad, gan ddarparu sylfaen gryfach i wasanaethau allu cynllunio a chyflawni.

Rydym yn glir na fydd y buddsoddiad hwn yn dileu pob her, nac yn datrys dros nos yr holl bwysau sy'n wynebu'r GIG. Mae'r galw yn parhau i fod yn uchel, mae cyfyngiadau o ran y gweithlu a chapasiti yn parhau, a bydd gwella perfformiad a chanlyniadau ar ôl blynyddoedd o bwysau parhaus yn cymryd amser. Mae ein buddsoddiad yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer gwella, ond bydd cynnydd parhaol yn dibynnu ar ddiwygio, gwell cynhyrchiant a ffocws parhaus ar y canlyniadau a gyflawnir i gleifion.

Byddwn yn gweithio gyda'r GIG i wneud y defnydd gorau posibl o'i weithlu, ei gyfleusterau, ei dechnoleg a'i adnoddau, gan sicrhau bod adnoddau yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau a'r dulliau sy'n darparu'r budd mwyaf.

Dros y tymor hwy, rydym am newid cydbwysedd ein system iechyd a gofal. Yn rhy aml, dim ond ar ôl i bobl fynd yn ddifrifol wael, neu ar ôl i'w hanghenion ddod yn fwy cymhleth, y darperir cefnogaeth iddynt. Byddwn yn dechrau symud tuag at atal, ymyrryd yn gynharach a darparu mwy o ofal drwy wasanaethau sylfaenol, cymunedol ac integredig yn agosach at y cartref. Bydd hynny'n helpu pobl i aros yn iachach ac yn annibynnol am gyfnod hirach, yn ogystal â lleihau'r pwysau y gellir ei osgoi ar ysbytai.

Mae gofal cymdeithasol yn rhan annatod o'r newid hwnnw. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol cryf yn cefnogi pobl i fyw yn annibynnol, yn galluogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol ac yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael gofal yn y lleoliad mwyaf priodol i'w hanghenion. Bydd gwell integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol felly yn hanfodol i wella profiad pobl a gwneud y system gyfan yn fwy cynaliadwy.

Rydym hefyd yn buddsoddi yn y seilwaith sydd ei angen i foderneiddio gwasanaethau, gan gynnwys adeiladau'r GIG, offer meddygol a seilwaith digidol, cynyddu capasiti llawfeddygol a diagnostig a datblygu cyfleusterau iechyd a gofal mwy integredig. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn diogelwch, cynnal a chadw, a datgarboneiddio ar draws ystad y GIG, gan helpu i greu gwasanaethau mwy diogel, mwy gwydn a charbon is.

Ni all gwella iechyd fod yn gyfrifoldeb ar y GIG yn unig. Mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar ein hiechyd – y cartrefi rydyn ni'n byw ynddynt, y bwyd rydyn ni'n ei fwyta, ein haddysg a'n cyflogaeth, y trafnidiaeth sydd ar gael i ni, ein cymunedau a'n cyfleoedd i fod yn egnïol. Yn ystod tymor y Llywodraeth hon, byddwn yn defnyddio dull llywodraeth gyfan i atal a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n golygu nad yw iechyd da yn cael ei brofi'n gyfartal gan bobl ledled Cymru.

Ni all y Gyllideb hon gwblhau'r trawsnewidiad hwnnw ar unwaith. Mae'n ymateb i'r pwysau brys sy'n wynebu gwasanaethau nawr, ac yn dechrau'r newid tymor hwy tuag at atal, integreiddio a chanlyniadau gwell.

Ein buddsoddiadau allweddol

Adnoddau

£12.4 biliwn ar gyfer iechyd a gofal yn 2027-28, gan godi i £12.6 biliwn yn 2028-29.

£64 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn Cymru Iachach.

£47 miliwn ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.

£27 miliwn ar gyfer Iechyd Meddwl.

£29 miliwn ar gyfer Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio wedi'i Dargedu.

Cyfalaf

£694.7 miliwn ar gyfer rhaglen gyfalaf iechyd a gofal yn 2027-28 ac oddeutu £2 biliwn dros dair blynedd. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu:

£285 miliwn dros dair blynedd ar gyfer y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.

£100 miliwn dros dair mlynedd ar gyfer blaenoriaethau digidol.

£171 miliwn dros dair blynedd ar gyfer prosiectau a rhaglenni iechyd, gan gynnwys hybiau gofal dewisol.

Helpu aelwydydd â chostau byw

Gwyddom fod cost hanfodion bob dydd yn parhau i roi pwysau ar gyllidebau aelwydydd ledled Cymru. Felly, mae helpu teuluoedd â chostau byw yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, ac mae'r Gyllideb hon yn defnyddio'r ysgogwyr sydd ar gael i ni i helpu i leihau costau, sicrhau bod aelwydydd yn cael yr incwm mwyaf posibl, a chryfhau diogelwch ariannol.

Nid oes un ateb unigol i'r pwysau costau byw y mae pobl yn eu hwynebu. Gall gofal plant, tai, ynni, trafnidiaeth a mynediad at gyngor a chymorth ariannol i gyd effeithio ar ba mor bell mae incwm aelwydydd yn ymestyn. Dyna pam rydym yn mynd ati ar sail llywodraeth gyfan, gan gyfuno cymorth ymarferol â buddsoddiad tymor hwy i gryfhau gwydnwch aelwydydd.

Gan gydnabod y pwysau uniongyrchol sy'n wynebu teuluoedd y gaeaf hwn, rydym eisoes wedi cyhoeddi pecyn costau byw gwerth £130 miliwn, a fydd yn darparu cymorth ochr yn ochr â'r buddsoddiadau tymor hwy a nodir yn y Gyllideb hon.

Conglfaen ein dull o leihau pwysau ariannol ar aelwydydd yw gofal plant. Drwy'r Gyllideb hon, rydym wedi ariannu camau cyntaf ein hymrwymiad i ddatblygu Cynnig Gofal Plant cyffredinol i blant rhwng naw mis oed a phedair blwydd oed, gan adeiladu tuag at 20 awr o ofal plant a ariennir yr wythnos am 48 wythnos o'r flwyddyn, gan gynnal hefyd y cynnig presennol o 30 awr ar gyfer plant tair a phedair oed sy'n gymwys. Drwy leihau un o'r costau mwyaf sy'n wynebu llawer o deuluoedd, gallwn roi arian yn ôl i gyllidebau aelwydydd a helpu mwy o rieni a gofalwyr i weithio, astudio neu i gynyddu eu horiau gwaith. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a nodwyd yn ein Rhaglen Lywodraethu, sef rhoi gofal plant fforddiadwy wrth wraidd ein hymateb i gostau aelwydydd.

Rydym hefyd yn ariannu cymorth sy'n helpu aelwydydd i gael yr incwm mwyaf sy'n ddyledus iddynt, a chael mynediad at gymorth pan fydd pwysau ariannol yn codi. Mae'r Gronfa Gynghori Sengl yn helpu pobl i gael mynediad at y cymorth y mae ganddynt hawl i'w gael ac mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn helpu i leihau pwysau biliau hanfodol ar aelwydydd.

Mae cartref diogel a fforddiadwy hefyd yn sylfaenol i ddiogelwch ariannol. Drwy'r Gyllideb hon, rydym yn buddsoddi mewn cartrefi cymdeithasol newydd, gan helpu i gynyddu'r cyflenwad hirdymor o dai cymdeithasol. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn caffael tir a pharatoi safleoedd i gryfhau'r cyflenwad tai yn y dyfodol, ochr yn ochr â buddsoddiad sylweddol mewn datgarboneiddio preswyl a'r cynllun Cartrefi Clyd i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau costau aelwydydd.

Rydym yn ariannu gwasanaethau sy'n helpu pobl i aros yn eu cartrefi ac atal digartrefedd, ochr yn ochr â buddsoddi yn y cynllun Nyth ac ôl-osod tai i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau costau ynni aelwydydd.

Mae trafnidiaeth fforddiadwy hefyd yn bwysig i gyllid aelwydydd a gallu pobl i gael mynediad at waith, addysg a gwasanaethau hanfodol. Mae ein buddsoddiad ehangach mewn trafnidiaeth gyhoeddus

yn cynnwys cymorth parhaus ar gyfer tocynnau bysiau rhatach i blant a phobl ifanc, gan helpu i gadw costau teithio i lawr i deuluoedd ledled Cymru.

Mae ein dull gweithredu yn cydnabod bod angen i helpu aelwydydd heddiw ac adeiladu mwy o wydnwch ariannol ar gyfer y dyfodol fynd law yn llaw. Gall gofal plant fforddiadwy ei gwneud hi'n haws gweithio, a gall tai diogel ac ynni-effeithlon leihau costau aelwydydd, gall trafnidiaeth fforddiadwy wella mynediad at gyfleoedd, a gall cyngor a chymorth ariannol helpu pobl i gael yr incwm mwyaf sy'n ddyledus iddynt ac osgoi problemau rhag gwaethygu.

Ond rydym yn realistig ynglŷn â'r pwysau sy'n parhau. Ni all y Gyllideb hon amddiffyn pob aelwyd rhag y cynnydd mewn costau byw, ac mae dewisiadau anodd yn golygu y bydd rhai mathau o gymorth yn fwy cyfyngedig. Er enghraifft, tra bod ein cymorth argyfwng yn parhau i fod ar waith, bydd gostyngiad yn y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol, a fydd yn golygu newid yn lefel y gefnogaeth y gallwn ei chynnig. Ni ellir tybio y bydd buddsoddiad tymor hwy mewn gofal plant, tai ac atal yn cael gwared ar y pwysau uniongyrchol hynny.

Felly, mae'r Gyllideb hon yn cyfuno camau ymarferol i leihau rhai o'r costau y mae aelwydydd yn eu hwynebu heddiw, gyda buddsoddiad a all gryfhau diogelwch ariannol dros y tymor hwy.

Ein buddsoddiadau allweddol

Adnoddau

Dyraniadau ychwanegol o £75 miliwn yn 2027-28 a £111 miliwn yn 2028-29 ar gyfer gofal plant.

£211 miliwn yn 2027-28 ar gyfer y Grant Cymorth Tai.

£10.8 miliwn wedi'i ddyrannu i dargedu atal digartrefedd.

£13 miliwn ar gyfer Cynllun y Gronfa Gynghori Sengl

Cyfalaf

£543.6 miliwn ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yn 2027-28 ac £1.57 biliwn dros dair blynedd.

£120 miliwn dros dair blynedd ar gyfer gofal plant.

£623.4 miliwn dros dair blynedd ar gyfer datgarboneiddio preswyl a'r cynllun Cartrefi Clyd.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

Blaenoriaethu tai drwy roi sicrwydd aml-flwyddyn a chynyddu buddsoddiad:

£243.2 miliwn ar gyfer benthyciadau datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig;

£70 miliwn ar gyfer Cymorth i Brynu – Cymru;

£30 miliwn ar gyfer Tir ar gyfer Tai;

£30 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Trawsnewid Trefi;

£20 miliwn ar gyfer y Gronfa Rhyddhau Tir.

Gwireddu potensial economi Cymru, a chreu swyddi da sy'n talu'n dda

Mae adeiladu economi gryfach a mwy cynhyrchiol yn ganolog i'n huchelgais ar gyfer Cymru. Gall cynhyrchiant uwch gefnogi busnesau cryfach, cyflogau uwch, swyddi gwell a chodi safonau byw.

Ond nid yw cynhyrchiant yn cael ei sbarduno gan un rhaglen benodol. Mae'n dibynnu ar fusnesau yn gallu buddsoddi a thyfu, pobl sydd â'r sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt, a'r seilwaith, ynni a chysylltedd sy'n caniatáu i bob rhan o Gymru gyfrannu at ein llwyddiant economaidd. Felly, mae dull economaidd y Llywodraeth hon yn cysylltu buddsoddiad ar draws addysg, sgiliau, gofal plant, iechyd, tai, trafnidiaeth a chysylltedd digidol.

Mae'r Gyllideb hon yn dechrau rhoi dull newydd ar waith ar gyfer datblygu'r economi. Rydym wedi creu cyllideb benodedig ar gyfer ein hasiantaeth newydd, sef Asiantaeth Arloesi a Datblygu Cymru, ac rydym yn buddsoddi mwy nag £20 miliwn yn 2027-28 i ddechrau'r gwaith sydd ei angen i'w sefydlu. Bydd yr Asiantaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol gryfach ar gyfer datblygu economaidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar helpu busnesau Cymru i dyfu, cynyddu buddsoddiad a chryfhau nifer y cwmnïau canolig eu maint sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru.

Bydd y cyfleoedd a gyflwynir gan dechnoleg newydd hefyd yn ganolog i wella cynhyrchiant Cymru. Rydym yn buddsoddi £13 miliwn yn ein Strategaeth Ddigidol, gan gynnwys £9.3 miliwn ar gyfer y Sefydliad AI newydd a'r rhaglen AI ehangach. Bydd hyn yn helpu i sefydlu gallu cenedlaethol i gyflymu'r broses o fabwysiadu AI yn ddiogel, ymarferol a dwyieithog ar draws gwasanaethau cyhoeddus ac economi Cymru. Trwy gysylltu llywodraeth, y byd academaidd a diwydiant, rydym am gryfhau sgiliau AI, galluogi busnesau a gwasanaethau i fabwysiadu technolegau newydd a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer arloesi a thwf economaidd.

Mae ynni yn cynnig cyfle economaidd mawr arall. Mae gan Gymru botensial sylweddol o ran ynni adnewyddadwy, ac rydym am i fwy o'r swyddi, y buddsoddiad a'r gwerth economaidd hirdymor a grëir o'n hadnoddau naturiol aros yng Nghymru. Trwy'r Gyllideb hon rydym yn ariannu gwaith i gryfhau proses ddatblygu ynni adnewyddadwy a pherchnogaeth gymunedol, ochr yn ochr â datblygu Strategaeth Ynni Genedlaethol a Bargen y Sector Ynni Adnewyddadwy. Rydym hefyd yn dod â Trydan Gwyrdd Cymru, Ynni Cymru a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru at ei gilydd fel rhan o gynnig ynni cenedlaethol cryfach.

Rydym hefyd yn braenaru'r tir ar gyfer partneriaeth economaidd newydd ar Ystad y Goron. Ein huchelgais yw sicrhau buddsoddiad sylweddol yng Nghymru dros y blynyddoedd i ddod a sicrhau bod cyfleoedd sy'n deillio o ddatblygiadau fel y Môr Celtaidd yn troi'n swyddi yng Nghymru, cadwyni cyflenwi cryfach a mwy o werth yn cael ei gadw yng Nghymru. Megis dechrau y mae'r gwaith ar y bartneriaeth ac nid yw graddfa'r buddsoddiad wedi'i gytuno eto, ond ein huchelgais yw sicrhau tua £700 miliwn o fuddsoddiad Ystad y Goron dros y blynyddoedd i ddod.

Mae seilwaith yn hanfodol i'r genhadaeth honno o ran cynhyrchiant. Rydym yn buddsoddi dros £815.2 miliwn drwy raglen gyfalaf Menter, Cysylltedd ac Ynni yn 2027-28 a thua £2.3 biliwn dros dair blynedd. Mae'r buddsoddiad hwn yn rhychwantu

trafnidiaeth, seilwaith busnes, safleoedd cyflogaeth, band eang, twristiaeth, arloesi, gwyddoniaeth, ynni adnewyddadwy a datblygu rhanbarthol. Bydd gwell trafnidiaeth a chysylltedd digidol yn cysylltu pobl â swyddi a busnesau â marchnadoedd. Rydym hefyd yn gwybod bod cyflymu trydaneiddio cerbydau yn gam nesaf hanfodol wrth gyflawni ymrwymiadau hinsawdd Cymru a'n llwybr i Sero Net. Rydym yn ymrwymo £30 miliwn dros dair blynedd i raglen fuddsoddi genedlaethol strategol i gyflymu trydaneiddio cerbydau. Yn dilyn trafodaeth adeiladol â Phlaid Werdd Cymru, bydd cyfran o'r cyllid hwn yn cael ei fuddsoddi mewn datblygu clybiau ceir trydan cymunedol. Bydd hyn yn helpu i ddarparu trafnidiaeth hygyrch i gymunedau sy'n cael eu tanwasanaethu ac yn lleihau'r angen i deuluoedd fod yn berchen ar sawl car.

Rhaid i'n ffordd o fynd ati weithio i Gymru gyfan. Mae cymunedau a busnesau gwledig yn rhan hanfodol o'n heconomi, gan gefnogi gwaith cynhyrchu bwyd, twristiaeth, cyflogaeth a'r Gymraeg fel iaith fyw. Rydym yn darparu £340 miliwn flwyddyn drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan roi mwy o sicrwydd i'r sector a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor ffermio yng Nghymru, gan gyflawni canlyniadau amgylcheddol yn raddol.

Rydym yn cyfeirio buddsoddiad cyhoeddus tuag at gynhyrchiant, arloesedd a sefydliadau economaidd cryfach. Bydd llwyddiant yn cael ei fesur gan fusnesau cryfach, swyddi da sy'n talu'n dda, mwy o fuddsoddiad a mwy o werth economaidd yng Nghymru.

Ein buddsoddiadau allweddol

Adnoddau

Mwy nag £20 miliwn i'r asiantaeth newydd, Asiantaeth Arloesi a Datblygu Cymru.

£13 miliwn ar gyfer y Strategaeth Ddigidol, gan gynnwys £9.3 miliwn ar gyfer y Sefydliad AI a'r rhaglen AI ehangach.

£4 miliwn yn 2027-28 a £3.6 miliwn yn 2028-29 ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy.

£1 miliwn i'r Comisiwn Economaidd a Chyllidol.

Mwy na £403 miliwn ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd a £75 miliwn ar gyfer gwasanaethau bysiau yn 2027-28.

£286 miliwn y flwyddyn ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cyfalaf

£815.2 miliwn ar gyfer cyfalaf Menter, Cysylltedd ac Ynni yn 2027-28 a £2.3 biliwn dros dair blynedd.

£30 miliwn dros dair blynedd ar gyfer seilwaith cerbydau trydan strategol.

£30 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Ynni Cymru.

£215.4 miliwn dros dair blynedd ar gyfer buddsoddiad amaethyddol a gwledig, y mae £162 miliwn ohono yn uniongyrchol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

£9 miliwn ar gyfer Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.

£103.6 miliwn ar gyfer y Gronfa Cyllid Busnes.

£22.5 miliwn ar gyfer y Cynllun Benthyciadau Amaethyddol Cynaliadwy.

Codi safonau yn ein hysgolion a sicrhau'r amodau gorau ar gyfer dysgu

Mae addysg yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i ffynnu drwy gydol eu bywydau. Mae codi safonau yn ein hysgolion felly yn un o'n blaenoriaethau canolog, gyda ffocws penodol ar wella llythrennedd a rhifedd, presenoldeb ac ansawdd addysgu a dysgu.

Darperir y rhan fwyaf o gyllid ar gyfer ysgolion drwy awdurdodau lleol. Mewn sefyllfa ariannol anodd, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i lywodraeth leol, gyda chynnydd cyffredinol o 2.8% i'r setliad.. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn darparu £417.6 miliwn bob blwyddyn yn uniongyrchol i ysgolion ac awdurdodau lleol, drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, i godi lefelau cyrhaeddiad, gwella canlyniadau llythrennedd a rhifedd ac ysgogi gwelliant parhaus mewn ysgolion.

Mae codi safonau hefyd yn golygu sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i ddysgu. Gall tlodi, anghenion dysgu ychwanegol, presenoldeb gwael a rhwystrau eraill effeithio ar allu dysgwyr i gymryd rhan a chyflawni eu potensial. Mae tystiolaeth a ystyriwyd fel rhan o'r Gyllideb yn dangos anghydraddoldebau parhaus o ran cyfranogiad a chanlyniadau addysgol, gan gynnwys presenoldeb gwael ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a rhwystrau a brofir gan rai dysgwyr anabl a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Felly, mae ein buddsoddiad yn cyfuno ffocws ar safonau gyda chymorth i ddysgwyr sy'n wynebu mwy o rwystrau i gyflawni. Bydd cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion, anghenion dysgu ychwanegol a rhaglenni tegwch ehangach yn cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i wella cyrhaeddiad, presenoldeb, llesiant a chynhwysiant.

Mae athrawon a'r gweithlu addysg ehangach yn hanfodol i wella safonau. Rydym yn ariannu'r cwricwlwm ac asesu, cymorth proffesiynol a chymelldaliadau i helpu i ddenu athrawon i feysydd lle mae eu hangen fwyaf. Bydd ein dull gweithredu yn cefnogi addysgu o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gadw ein ffocws ar lythrennedd, rhifedd, cynnydd dysgwyr a gwella ysgolion.

Rydym hefyd eisiau i bobl ifanc gael llwybrau clir o'r ysgol i ddysgu pellach, hyfforddiant a chyflogaeth dda. Bydd ein buddsoddiad mewn Prentisiaethau Iau yn rhoi mynediad i fwy o bobl ifanc 14 i 16 oed at ddysgu galwedigaethol ochr yn ochr â'u haddysg ysgol, gan ehangu'r llwybrau sydd ar gael i bobl ifanc a chryfhau'r cysylltiad rhwng addysg a chyfleoedd yn y dyfodol.

Mae'r amodau y mae plant yn dysgu ynddynt yn bwysig hefyd. Rydym yn buddsoddi £407.1 miliwn mewn cyfalaf addysg a gofal plant yn 2027-28 ac £1.2 biliwn dros dair blynedd i wella'r ystad addysg. Bydd hyn yn cefnogi gofal plant, gwaith cynnal a chadw mewn ysgolion a cholegau, anghenion dysgu ychwanegol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ysgolion bro, seilwaith digidol, datgarboneiddio a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy. Nid dim ond buddsoddi mewn adeiladau yw ein nod, ond darparu amgylcheddau modern, cynhwysol ac effeithiol lle gall dysgwyr ac athrawon lwyddo ynddynt.

Rydym yn realistig y bydd gwelliant parhaus mewn canlyniadau addysgol yn cymryd amser. Ni all cyllid gael gwared ar bob rhwystr sy'n wynebu dysgwyr neu ysgolion, yn enwedig pan fo anfantais y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn effeithio ar bresenoldeb a chyrhaeddiad. Mae dewisiadau anodd hefyd mewn mannau eraill ym maes addysg wrth i ni ganolbwyntio adnoddau cyfyngedig yn agosach ar ein blaenoriaethau. Ein dull gweithredu felly yw canolbwyntio buddsoddiad lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf, cryfhau sylfeini dysgu a rhoi'r cyfle gorau posibl i bob plentyn gyflawni ei botensial.

Ein buddsoddiadau allweddol

Adnoddau

Cynnydd cyffredinol o 2.8% yng nghyllid llywodraeth leol.

£417.6 miliwn bob blwyddyn yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion ac awdurdodau lleol. sy'n cynnwys £127.8 miliwn ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion a £37 miliwn ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

£19.9 miliwn ar gyfer cwricwlwm ac asesu sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol.

£2 miliwn ar gyfer Prentisiaethau Iau.

£3.8 miliwn ar gyfer cymelldaliadau Addysg Gychwynnol i Athrawon.

Cyfalaf

£407.1 miliwn yn 2027-28 ac £1.2 biliwn dros dair blynedd sy'n cynnwys cefnogi seilwaith addysg a gofal plant.

Mynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau'r dyfodol gorau i bob plentyn yng Nghymru

Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn un o genadaethau diffiniol y Llywodraeth hon. Mae'n rheidrwydd moesol ac yn fuddsoddiad yn nyfodol Cymru. Dylai pob plentyn allu dysgu, cymryd rhan a gwireddu ei botensial, waeth beth fo incwm ei deulu. Eto mae tlodi yn parhau i effeithio ar iechyd, cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd plant yn ddiweddarach mewn bywyd.

Nid dim ond lliniaru effeithiau tlodi yw ein huchelgais, ond torri'r cylch sy'n caniatáu i anfantais drosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf. Mae hynny'n gofyn am weithredu ar draws y llywodraeth. Mae incwm teuluol yn bwysig, ond felly hefyd iechyd plant, eu profiad o addysg, y cartrefi a'r cymunedau maen nhw'n tyfu i fyny ynddynt a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt wrth iddynt dyfu i fod yn oedolion. Felly, mae gan ein dewisiadau yn y Gyllideb ar draws y llywodraeth rôl i'w chwarae wrth roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn.

Rydym wedi dechrau ar y gwaith hwnnw drwy fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau ar gyfer Cynnal, ein cynllun peilot Taliad Plant yng Nghymru. Rydym wedi darparu £9.2 miliwn ar draws 2027-28 a 2028-29 i ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i deuluoedd incwm is cymwys â phlant ifanc a phrofi'r effaith y gall hyn ei chael ar dlodi plant, llesiant teuluoedd a chanlyniadau plant. Bydd adeiladu'r dystiolaeth honno yn ein helpu i ddeall y rôl y gallai cymorth ariannol uniongyrchol ei chwarae mewn ffordd ehangach o weithio yng Nghymru yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn buddsoddi i sicrhau nad yw llwgu yn dod yn rhwystr i ddysgu. Rydym wedi ymrwymo i barhau â'n gwaith o ehangu prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn adeiladu ar ddarpariaeth gyffredinol mewn ysgolion cynradd a bydd yn helpu mwy o blant i gael mynediad at bryd maethlon yn ystod y diwrnod ysgol, gan gefnogi eu hiechyd, eu llesiant a'u gallu i gymryd rhan lawn yn y broses ddysgu.

Mae gan addysg rôl ehangach wrth dorri'r cylch hwnnw. Trwy'r Gyllideb hon, rydym wedi ariannu cymorth sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, ochr yn ochr â'n buddsoddiad ehangach i godi safonau ysgolion. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion a ddyrannwyd drwy ein cyllid ehangach ar gyfer Tegwch mewn Addysg yn cydnabod y gall tlodi effeithio ar bresenoldeb, cyrhaeddiad a chyfranogiad. Mae gwella'r canlyniadau hynny nid yn unig yn flaenoriaeth ar gyfer addysg. Mae'n fuddsoddiad mewn cyfleoedd i blant yn y dyfodol ac yn lleihau'r risg bod anfantais a brofwyd yn ystod plentyndod yn cael ei wreiddio drwy gydol eu bywydau.

Mae'r gwaith hwn yn ymestyn y tu hwnt i raglenni unigol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu strategaeth newydd i fynd i'r afael â thlodi plant, gyda thargedau, meincnodau a cherrig milltir clir. Bydd hyn yn cryfhau atebolrwydd ac yn helpu i sicrhau bod gweithredu ar draws y llywodraeth yn canolbwyntio ar newid canlyniadau i blant. Bydd buddsoddiad ehangach mewn iechyd, tai, addysg a'r economi yn cyfrannu at y genhadaeth honno heb ddyblygu'r buddsoddiadau penodol a nodir mewn mannau eraill yn yr Adroddiad hwn ar y Gyllideb.

Rydym yn realistig o ran maint yr her. Ni fydd y Gyllideb hon yn dileu tlodi plant, ac mae'r amgylchiadau ariannol anodd y mae wedi'i datblygu oddi tanynt yn golygu na ellir dileu'r holl bwysau sy'n wynebu teuluoedd incwm isel. Felly, nid yw ein buddsoddiadau yn cael gwared ar bob effaith niweidiol, a byddwn yn parhau i asesu effaith gyfunol ein penderfyniadau.

Mae ein nod yn glir – ni ddylai amgylchiadau plentyn heddiw benderfynu ar eu cyfleoedd yfory. Trwy gyfuno cymorth uniongyrchol â chamau gweithredu i leihau llwgu, goresgyn anfantais mewn addysg ac ymyrryd yn gynharach, mae'r Gyllideb hon yn dechrau'r gwaith tymor hwy o dorri'r cylch tlodi a sicrhau'r dyfodol gorau posibl i bob plentyn yng Nghymru.

Ein buddsoddiadau allweddol

Adnoddau

£9.2 miliwn dros ddwy flynedd ar gyfer cynllun peilot Cynnal.

£103.5 miliwn ar gyfer prydau ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys £10 miliwn i ehangu prydau ysgolion uwchradd am ddim.

£158.8 miliwn ar gyfer Tegwch mewn Addysg, gan ddiogelu £127.8 miliwn ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion, gan gefnogi cyrhaeddiad, presenoldeb a llesiant dysgwyr yr effeithir arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cyfalaf

£3 miliwn dros dair blynedd ar gyfer cyfalaf Cefnogi Cymunedau.

Sefyll dros Gymru a mynnu tegwch gan San Steffan

Mae'r Gyllideb hon wedi'i seilio ar yr adnoddau a'r pwerau sydd ar gael i Gymru ar hyn o bryd. Ond nid yw ein huchelgais ar gyfer ein gwlad wedi'i chyfyngu gan y setliad presennol. Byddwn yn parhau i sefyll dros Gymru, gan ddadlau'r achos dros gyllid teg, mwy o hyblygrwydd cyllidol a'r pwerau a'r buddsoddiad sydd eu hangen ar ein gwlad i gyflawni ei photensial.

Mae hynny'n bwysig yn enwedig o dan yr amgylchiadau ariannol anodd yr ydym wedi datblygu'r Gyllideb hon. Mae'r adnoddau sydd ar gael i ni yn gyfyngedig ar adeg pan fo'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn uchel ac mae angen buddsoddiad hirdymor ar Gymru yn ei seilwaith a'i heconomi. Byddwn yn parhau i bwyso am ddiwygio'r ffordd y caiff Cymru ei hariannu, mwy o hyblygrwydd o ran sut rydym yn rheoli ein cyllid a chyllid teg ar gyfer cyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Byddwn hefyd yn parhau i ddadlau'r achos dros fuddsoddiad teg yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ceisio'r cyllid rheilffyrdd sy'n ddyledus i Gymru, gan gynnwys symiau canlyniadol sy'n gysylltiedig â HS2, a datganoli rheilffyrdd fel bod penderfyniadau am seilwaith Cymru yn adlewyrchu ein blaenoriaethau yn well. Byddwn yn ceisio datganoli Toll Teithwyr Awyr ac yn dadlau'r achos dros bwerau pellach pan fyddent yn galluogi Cymru i ddarparu gwasanaethau mwy cydlynol a chanlyniadau gwell i'n cymunedau.

Ond mae sefyll dros Gymru yn ymwneud â mwy na chyllid a phwerau. Mae hefyd yn ymwneud â bod yn hyderus o ran pwy ydyn ni fel cenedl a sicrhau bod gan Gymru lais cryf gartref ac yn rhyngwladol. Mae ein diwylliant, ein treftadaeth a'n chwaraeon yn adrodd stori Cymru, yn cryfhau ein cymunedau, yn darparu manteision economaidd, cymdeithasol ac iechyd ac yn cynnig cyfleoedd i arddangos ein gwlad i'r byd.

Drwy'r Gyllideb hon, rydym felly yn buddsoddi ym mywyd diwylliannol a chwaraeon Cymru. Bydd ein buddsoddiad yn cefnogi amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, sefydliadau'r celfyddydau a threftadaeth, chwaraeon a diwylliant lleol a'r sefydliadau cenedlaethol sy'n diogelu ac yn hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol unigryw Cymru. Rydym hefyd yn buddsoddi yn y cyfleusterau sy'n caniatáu i fwy o bobl a chymunedau gymryd rhan, gan gydnabod y cyfraniad y mae diwylliant a chwaraeon yn ei wneud i lesiant yn ogystal â hunaniaeth genedlaethol. Mae sefyll dros Gymru hefyd yn golygu mynd i'r afael ag etifeddiaeth ein gorffennol diwydiannol a diogelu cymunedau rhag risgiau yn y dyfodol.

Mae digwyddiadau rhyngwladol mawr yn cynnig cyfle arall i roi Cymru ar lwyfan y byd. Rydym wedi ariannu ein hymrwymiadau ar gyfer y Tour de France ac UEFA EURO 2028, gan fuddsoddi £10 miliwn yn 2027-28 tuag at y digwyddiadau mawr hyn. Mae £11.7 miliwn arall yn cael ei fuddsoddi yn yr Ewros yn 2028-29.

Mae'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â mwy na'r campau eu hunain. Maent yn rhoi cyfle i hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol, denu ymwelwyr, cryfhau ein henw da ac arddangos cymunedau, diwylliant a busnesau Cymru i gynulleidfaoedd byd-eang. Bydd ein gweithgarwch rhyngwladol yn canolbwyntio ar gyfleoedd, gan gynnwys y Tour de France, yr Ewros a'n gwaith ymgysylltu ehangach ag Ewrop, gan ein helpu

i feithrin cysylltiadau a chyflwyno Cymru hyderus, sy'n edrych tuag allan.

Mae sefyll dros Gymru felly yn golygu gwneud defnydd llawn o'r offer sydd ar gael i ni heddiw, gan barhau i ddadlau dros yr adnoddau a'r cyfrifoldebau sydd eu hangen ar Gymru ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn golygu buddsoddi yn y sefydliadau, y digwyddiadau a'r cysylltiadau sy'n caniatáu i Gymru adrodd ei stori ei hun a chryfhau ei phresenoldeb yn y byd

Ein buddsoddiadau allweddol

Adnoddau

£10 miliwn yn 2027-28 ar gyfer y Tour de France ac UEFA EURO 2028.

£127 miliwn i gefnogi diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn 2027-28.

Buddsoddiad o £6.6 miliwn mewn gweithgareddau a chysylltiadau rhyngwladol.

£8.8m dros ddwy flynedd ar gyfer nofio i ysgolion.

Cyfalaf

£134.9 miliwn dros dair blynedd ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau, gan gynnwys cynlluniau cenedlaethol ac ar lawr gwlad.

£27.5 miliwn dros dair blynedd ar gyfer prosiectau ymwelwyr a chymunedol Cadw.

£33 miliwn dros dair blynedd ar gyfer cyfalaf Chwaraeon Cymru.

£15.2 miliwn yn 2027-28, a £45.7 miliwn dros dair blynedd ar gyfer diogelwch tomenni glo a chronfeydd dŵr, yn ogystal â chyllid wedi'i glustnodi gan Lywodraeth y DU.

Gwell llywodraeth – cyflawni ein blaenoriaethau

Mae'r Gyllideb hon yn nodi dechrau dull newydd o fynd ati i lywodraethu. Nid dal ati i ddefnyddio patrymau gwario a etifeddwyd rydym wedi ei wneud. Rydym wedi archwilio i ble mae arian cyhoeddus yn mynd, herio a yw'n parhau i gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen arnom a dechrau ailgyfeirio adnoddau tuag at flaenoriaethau ein Llywodraeth newydd. Yn rhan o'n hadolygiad cyflym o wariant y llywodraeth, edrychom yn fanwl ar dros 970 o linellau rhaglenni unigol, a gwnaeth ein dull gweithredu ar gyfer cyllid cyfalaf ddechrau o sylfaen sero.

Byddwn yn barnu llwyddiant yn gynyddol yn ôl y canlyniadau y mae gwariant cyhoeddus yn ei gyflawni.

Trwy'r Gyllideb hon, rydym wedi sefydlu Cronfa Trawsnewid gwerth £25 miliwn i ddechrau ar y gwaith hwnnw. Mae hyn yn cynnwys £5 miliwn i gefnogi'r trawsnewid o fewn Llywodraeth Cymru ac £20 miliwn ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Bydd y Gronfa yn buddsoddi mewn newidiadau a fydd yn gallu gwella gwasanaethau, cynhyrchiant a chanlyniadau yn ogystal â lleihau pwysau gwariant yn y dyfodol, gan gefnogi rhaglen tymor hwy ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd technoleg, data ac arloesi yn bwysig o ran y trawsnewid hwnnw. Ochr yn ochr â'n Cronfa Trawsnewid, rydym yn buddsoddi yn y systemau digidol, mesurau seiberddiogelwch, gwasanaethau seilwaith a systemau technoleg yn y gweithle sy'n sail i lywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus effeithiol. O'u defnyddio'n dda, gall technoleg ddigidol, awtomeiddio ac AI wneud gwasanaethau'n fwy syml ac yn fwy hygyrch, gwella profiadau pobl o lywodraeth a chaniatáu i staff dreulio mwy o amser ar y gwaith sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf. Ond nid symud costau i fannau eraill neu wneud gwasanaethau yn anoddach i gael gafael arnynt y mae trawsnewid yn ei olygu. Byddwn yn disgwyl i fuddsoddi yn y gwaith diwygio ddangos gwelliannau mesuradwy o ran canlyniadau a chynhyrchiant.

Mewn rhai meysydd, mae angen buddsoddi i gynhyrchu arbedion a refeniw yn y dyfodol. Mae ein trethi datganoledig yn darparu tua 20% o'r cyllid sydd ar gael inni. Trwy'r Gyllideb Ddrafft hon, rydym yn buddsoddi cyllid adnoddau gwerth £13 miliwn yn 2027-28 i alluogi Awdurdod Cyllid Cymru i weinyddu a chasglu'r trethi hyn yn effeithlon, gan helpu i sicrhau refeniw hanfodol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Bydd gwella cynhyrchiant ar draws y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn ganolog i gyflawni mwy gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Rydym am wneud gwell defnydd o'n pobl, ein hasedau, ein technoleg a'n data a rhyddhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen a'n blaenoriaethau.

Mae gwaith atal hefyd yn hanfodol i sicrhau gwell llywodraeth. Yn rhy aml, mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymyrryd pan fo problemau wedi dod yn fwy difrifol, yn fwy niweidiol ac yn ddrutach i'w datrys. Fel y mae'r Gyllideb hon yn dangos ar draws y meysydd yn ymwneud ag iechyd, tlodi plant, tai ac addysg, rydym yn awyddus i symud mwy o'n hadnoddau tuag at waith atal ac ymyrraeth gynharach, a hynny mewn modd blaengar. Bydd y trawsnewid hwnnw'n cymryd amser, yn arbennig wrth i bwysau acíwt barhau, ond bydd yn cael mwy a mwy o ddylanwad ar y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau gwario.

Bydd ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur hefyd yn llywio'r dewisiadau a wnawn ar draws y llywodraeth. Fwyfwy, byddwn yn ymgorffori gwydnwch hinsawdd, datgarboneiddio a'r trawsnewid i sefyllfa sero net yn y ffordd rydym yn cynllunio gwasanaethau, rheoli ein hystad a gwneud penderfyniadau buddsoddi. Rydym hefyd yn sefydlu Cronfa Gwydnwch Hinsawdd i gryfhau gallu Cymru i baratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd ac ymateb iddynt. Bydd y gronfa yn diogelu ac yn blaenoriaethu adnoddau ar gyfer gweithredu ar y rheng flaen, gan gynnwys datrysiadau sy'n seiliedig ar yr hinsawdd a natur. Bydd hefyd yn rhoi gwell ffocws ar fuddsoddi. Cafodd y gronfa ei datblygu drwy drafodaethau cynnar ac adeiladol â Phlaid Werdd Cymru, gan ddangos gwerth gweithio gyda'n gilydd ar feysydd o flaenoriaeth a rennir i lywio'r gwaith buddsoddi o ran gweithredu ar newid hinsawdd a natur. Gall gweithredu'n gynt leihau costau yn y dyfodol yn ogystal â gwneud ein cymunedau, ein seilwaith a'n gwasanaethau cyhoeddus yn fwy gwydn i hinsawdd sy'n newid. Felly, bydd ein dull gweithredu yn ystyried nid yn unig y manteision uniongyrchol a ddaw yn sgil buddsoddi, ond sut y gall y penderfyniadau a wnawn heddiw hybu Cymru fwy cynaliadwy a gwydn yn y tymor hwy.

Mae cyflawni ein blaenoriaethau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraeth weithio'n wahanol ar draws ffiniau sefydliadol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y GIG, ysgolion, colegau a phrifysgolion, cyrff cyhoeddus, busnesau, undebau llafur, y trydydd sector a chymunedau. Rydym wedi adnewyddu ein Cytundeb Partneriaeth Strategol gydag awdurdodau lleol, gan ganolbwyntio fwyfwy ar rolau, cyllid, atebolrwydd, data a chanlyniadau.

Mae gwell llywodraeth hefyd yn golygu cefnogi ein huchelgais ar gyfer y Gymraeg. Trwy'r Gyllideb hon, rydym yn ariannu'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau o ran y Gymraeg, gan gynnwys gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Mae hyn yn cynnwys gwaith tuag at Strategaeth Cymraeg 2050 ddiwygiedig, Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, a Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg, a fydd yn cefnogi ein huchelgais i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd dyddiol ohoni.

Ni all y Gyllideb hon gwblhau'r gwaith o drawsnewid llywodraeth mewn blwyddyn. Ni all gwell effeithlonrwydd a chynhyrchiant ychwaith gael gwared ar yr holl bwysau a grëwyd gan setliad ariannol anodd. Bydd angen i bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru chwarae ei rhan, a bydd newid weithiau'n golygu gwneud dewisiadau anodd. Ond mae'r Gyllideb hon yn dechrau'r rhaglen ddiwygio tymor hwy honno, sy'n canolbwyntio ar atal, cynhyrchiant, gwydnwch a sicrhau canlyniadau gwell o bob punt rydym yn ei gwario.

Ein buddsoddiadau allweddol

Adnoddau

£25 miliwn ar gyfer y Gronfa Trawsnewid, gan gynnwys £5 miliwn i Lywodraeth Cymru ac £20 miliwn ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach.

Buddsoddi mewn technoleg ddigidol, data, awtomeiddio ac ailgynllunio gwasanaethau.

£46 miliwn ar gyfer y Gymraeg a gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

£10 miliwn ar gyfer y Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur.

£31.8 miliwn ar gyfer Adfer Natur a Gwydnwch Hinsawdd.

Cyfalaf

£20.4 miliwn yn 2027-28 a £61.2 miliwn dros dair blynedd ar gyfer cyfalaf Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

£39.3 miliwn yn 2027-28 a £117.9 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a Dŵr.

£47.5 miliwn yn 2027-28 a £143 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Adfer Natur a Gwydnwch Hinsawdd.

£50.7 miliwn yn 2027-28 a £153.9 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus a'r Economi Gylchol.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

£91.8 miliwn dros dair blynedd ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch i sicrhau cynnydd o ran effeithlonrwydd ynni.

£4.5 miliwn dros dair blynedd ar gyfer y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol.

Themâu trawsbynciol

Ochr yn ochr â'n blaenoriaethau, mae tair thema drawsbynciol yn rhedeg drwy'r dewisiadau rydym wedi'u gwneud yn y Gyllideb hon – cynhyrchiant, atal a hinsawdd. Mae pob un yn gofyn am weithredu ar draws y llywodraeth a dros y tymor hwy. Maent hefyd wedi'u cysylltu'n agos â'i gilydd. Gall poblogaeth iachach hybu economi gryfach, gall buddsoddi mewn gwaith atal leihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, a gall y trawsnewid i economi carbon is greu cyfleoedd newydd i fusnesau a chymunedau. Rydym wedi ystyried y themâu hyn ar draws ein penderfyniadau gwario, yn hytrach na'u trin fel cyfrifoldeb portffolios unigol.

Cynhyrchiant

Mae gwella cynhyrchiant yn hanfodol i godi safonau byw a chreu economi gryfach yng Nghymru. Mae gan Gymru gryfderau sylweddol, ond mae gennym hefyd fwlch cynhyrchiant hirsefydlog gyda gweddill y DU. Bydd angen gweithredu parhaus dros amser i gau'r bwlch hwnnw. Bydd yn golygu helpu busnesau i fuddsoddi, arloesi a thyfu, gan hefyd sicrhau bod gan bobl y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan yn yr economi.

Mae ein dull gweithredu yn fwy eang na phrosesau datblygu economaidd traddodiadol. Mae iechyd da, sgiliau, gofal plant fforddiadwy, tai a thrafnidiaeth ddibynadwy i gyd yn effeithio ar allu pobl i weithio a chyflawni eu potensial. Mae seilwaith, ynni a chysylltedd digidol hefyd yn dylanwadu ar lle y mae busnesau'n buddsoddi a pha mor effeithiol y gallant weithredu. Mae ein Cyllideb felly yn dwyn ynghyd y buddsoddi ar draws y meysydd hyn i gryfhau'r amodau ar gyfer twf yn y tymor hir. Mae hefyd yn cydnabod rôl technoleg newydd ac arloesi o ran gwella cynhyrchiant ar draws yr economi a gwasanaethau cyhoeddus.

Atal

Mae atal yn golygu gweithredu cyn i broblemau ddigwydd neu cyn iddynt ddod yn fwy difrifol. Wrth wneud hynny, gellir gwella canlyniadau ar gyfer pobl a chymunedau, gan hefyd leihau'r angen am ymyrraeth fwy costus yn ddiweddarach. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo gwasanaethau cyhoeddus o dan bwysau a phan fo'r galw yn parhau i dyfu.

Mae'r dull gweithredu hwn i'w weld yn llawer o'r dewisiadau yn y Gyllideb hon. O ran iechyd a gofal, mae'n golygu rhoi diagnosis a thriniaethau yn gynt a mwy o gymorth yn nes at y cartref. O ran teuluoedd, mae'n golygu gweithredu'n gynt i fynd i'r afael â thlodi a'r rhwystrau a all effeithio ar gyfleoedd bywyd plant. O ran tai, mae'n golygu helpu pobl i fyw mewn cartrefi diogel ac atal digartrefedd. Mae atal hefyd yn golygu mynd i'r afael â'r risgiau sy'n wynebu Cymru yn y tymor hir, o lifogydd a niwed amgylcheddol i anweithgarwch economaidd, clefydau anifeiliaid a seiberfygythiadau.

Rydym yn gwybod bod symud tuag at waith atal yn cymryd amser. Ni ellir anwybyddu pwysau acíwt wrth i'r trawsnewid hwnnw ddigwydd. Ein dull gweithredu felly yw ymateb i anghenion uniongyrchol gan hefyd fuddsoddi'n flaengar mewn camau gweithredu a all leihau'r galw yn y dyfodol a gwella canlyniadau yn y tymor hir.

Hinsawdd

Mae ymateb i newid hinsawdd yn gofyn am weithredu ar draws y llywodraeth gyfan. Gall y dewisiadau a wnawn ynglŷn ag ynni, trafnidiaeth, tai, seilwaith a defnydd tir i gyd gyfrannu at leihau allyriadau. Gallant hefyd helpu i ddatblygu economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n fwy parod ar gyfer effeithiau hinsawdd sy'n newid.

Mae'r Gyllideb hon yn cefnogi'r trawsnewid i Gymru carbon is gan hefyd gydnabod y cyfleoedd ehangach y gall hynny eu creu. Gall ynni adnewyddadwy gefnogi swyddi, buddsoddi a chadwyni cyflenwi cryfach yng Nghymru. Gall trafnidiaeth fwy cynaliadwy a chartrefi sy'n effeithlon o ran ynni leihau allyriadau gan hefyd wella bywydau bob dydd pobl. Gall ein buddsoddiad mewn ffermio, coedwigaeth, bioamrywiaeth a'r economi gylchol hefyd gefnogi'r hinsawdd a natur gan hefyd greu cyfleoedd yn yr economïau gwledig a lleol.

Ond dim ond rhan o'r her yw lleihau allyriadau. Rhaid inni hefyd baratoi ar gyfer newidiadau sydd eisoes yn digwydd. Mae meithrin gwydnwch i wrthsefyll llifogydd, tywydd crasboeth a thanau gwyllt yn ei gwneud yn ofynnol inni feddwl am risgiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ar draws ein seilwaith, ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus. Gall gweithredu nawr helpu i leihau costau yn y dyfodol a sicrhau bod y buddsoddiadau a wnawn heddiw yn parhau i fod yn wydn ar gyfer y dyfodol.

Y camau nesaf

Mae cynhyrchiant, atal a'r hinsawdd yn heriau hirdymor a byddant yn parhau i fod yn ganolog i'r ffordd yr ydym yn meddwl am y defnydd a wneir o arian cyhoeddus. Wrth inni symud tuag at y Gyllideb Derfynol, byddwn yn parhau i ystyried y themâu hyn ochr yn ochr â'r dystiolaeth a'r safbwyntiau a gafwyd yn sgil gweithgarwch craffu ac ymgysylltu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau yn cydbwyso'r pwysau rydym yn eu hwynebu heddiw â'r angen i gyflawni canlyniadau yn y tymor hir.

Adran 3
Ein Cyllid

“Byddwn yn rheoli cyllid Cymru mewn modd cyfrifol, gan wneud defnydd llawn ac effeithiol o’n trefniadau o ran trethi, benthyca a chyllido i gefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru.”

Sut rydym yn ariannu ein Cyllideb

Mae adrannau 1 a 2 o'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r Gyllideb Ddrafft a sut mae ein buddsoddiadau yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Maent yn edrych yn fwriadol ymhellach na'r ffiniau portffolio traddodiadol, gan adlewyrchu'r ffordd y mae ein blaenoriaethau yn dibynnu ar weithredu a buddsoddi ar draws y llywodraeth.

Mae'r adran hon yn egluro sut y caiff y buddsoddiadau hynny eu hariannu. Mae'n nodi'r cyd-destun economaidd a chyllidol y mae'r Gyllideb wedi'i datblygu ynddo, yr adnoddau sydd ar gael i Gymru a sut mae'r adnoddau hynny'n dod at ei gilydd i ariannu ein cynlluniau gwario. Mae hefyd yn nodi'r cyllid a ddyrennir i bob Gweinidog Cabinet drwy'r Prif Grwpiau Gwariant (MEGs).

Y Cyd-destun Cyllidol ac Economaidd

Nid yw'r dewisiadau a wnawn drwy'r Gyllideb hon yn digwydd ar wahân. Mae cryfder yr economi yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i'r llywodraeth, tra bod newidiadau o ran ein poblogaeth, ein safonau byw a'n marchnad lafur yn siapio'r pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus. Daw oddeutu 80% o gyllid Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU, sy'n golygu bod datblygiadau o ran economi ehangach y DU a chyllid cyhoeddus hefyd yn cael effaith sylweddol ar y cyllid sydd ar gael i Gymru.

Mae'r cyd-destun economaidd yn heriol. Mae twf wedi dychwelyd ond mae'n parhau i fod yn wan yn ôl safonau hanesyddol. Mae aelwydydd yn parhau i wynebu prisiau uwch a phwysau o ran eu hincwm, tra bod tueddiadau demograffig ac iechyd yn cynyddu'r galw am wasanaethau cyhoeddus ac yn creu risg o gyfyngu ar dwf economaidd yn y dyfodol. Ar yr un pryd, mae angen i Gymru ymateb i newidiadau sylweddol yn y tymor hwy, gan gynnwys y trawsnewid i sefyllfa sero net a'r defnydd cynyddol o AI.

Mae'r amodau hyn wedi siapio'r dewisiadau rydym wedi'u gwneud yn y Gyllideb hon. Maent yn atgyfnerthu'r angen i amddiffyn y gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt heddiw, gan hefyd fuddsoddi yn yr economi gryfach a mwy cynhyrchiol sydd ei hangen i gynnal y gwasanaethau hynny yn y dyfodol. Mae Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2026, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon, yn darparu'r dadansoddiad manwl sy'n sail i'r asesiad hwn. Mae pum cipolwg yn arbennig o bwysig o ran y dewisiadau a nodir yn y Gyllideb hon.

Mae twf economaidd wedi dychwelyd, ond mae'n wan yn ôl safonau hanesyddol

Tyfodd economi'r DU yn 2025 a disgwylir iddi barhau i dyfu dros y ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, mae prisiau ynni uwch ac ansefydlogrwydd rhyngwladol yn golygu bod y rhagolygon yn parhau i fod yn ansicr. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn wahanol o ran eu hasesiad o gryfder twf yn y tymor agos, ond mae'r

Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Banc Lloegr yn disgwyl i'r economi barhau i dyfu.

Mae'r darlun tymor hwy yn parhau i fod yn fwy dyrys. Mae twf o ran allbwn economaidd fesul pen yn parhau i fod ymhell islaw'r cyfraddau a welwyd cyn yr argyfwng ariannol, ac mae gan Gymru un o'r lefelau isaf o allbwn economaidd fesul pen yn y DU.

O ran ein Cyllideb Ddrafft, mae hyn yn bwysig. Mae economi gryfach yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer incwm aelwydydd a'r cyllid cyhoeddus. Mae twf gwannach parhaus yn ei gwneud yn anoddach gwella safonau byw a diwallu gofynion cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus.

Cynhyrchiant yw prif her economaidd hirdymor Cymru

Gwella cynhyrchiant yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy o hybu cyflogau uwch, gwell safonau byw a refeniw cyhoeddus cryfach yn y tymor hir. Byddai cau'r bwlch cynhyrchiant yn helpu i godi incwm yng Nghymru a chynyddu'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus, hybu trethi is, neu'r ddau.

Dyna pam mae rhaid i'r Gyllideb hon wneud mwy nag ymateb i bwysau uniongyrchol. Ochr yn ochr â chefnogi'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt nawr, mae angen i'n penderfyniadau gyfrannu at economi gryfach sy'n gallu hybu safonau byw uwch a chyllid cyhoeddus mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Mae Cymru yn wynebu pwysau demograffig ac iechyd cynyddol

Nid yw'r pwysau sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i ddim ond y sefyllfa ariannol uniongyrchol. Mae hefyd yn adlewyrchu newidiadau sylweddol ym mhoblogaeth ac iechyd Cymru.

Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio a rhagwelir y bydd ei phoblogaeth oedran gweithio yn lleihau. Ar yr un pryd, mae disgwyliad oes iach wedi gostwng ac mae salwch hirdymor yn parhau i fod yn un o'r ffactorau mwyaf sy'n effeithio ar anweithgarwch economaidd. Gyda'i gilydd, mae'r tueddiadau hyn yn peryglu cyfyngu ar dwf economaidd gan hefyd gynyddu'r galw am wasanaethau cyhoeddus.

Mae hyn yn creu her arbennig o anodd o ran cyllid cyhoeddus, hynny yw, posibilrwydd o lai o bobl yn cymryd rhan yn yr economi ochr yn ochr â mwy o alw am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'n cryfhau'r achos dros y pwyslais a roddwn yn y Gyllideb hon ar waith atal, gwella canlyniadau a defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol, gan gydnabod bod y rhain yn heriau hirdymor na ellir mynd i'r afael â nhw ag un Gyllideb.

Mae aelwydydd yn parhau i fod o dan bwysau ariannol, er gwaethaf gwelliannau mewn safonau byw

Mae'r amgylchiadau sy'n wynebu aelwydydd hefyd yn ganolog i'r dewisiadau rydym wedi'u gwneud. Mae chwyddiant wedi gostwng yn sylweddol o'i uchafbwynt yn 2022, ond mae'n parhau i fod yn uwch na'r gyfradd darged, ac mae aelwydydd yn parhau i wynebu prisiau llawer uwch na chyn 2022. Mae incwm aelwydydd yng Nghymru yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU ac mae cyfraddau tlodi yn parhau i fod yn gyson uchel.

Mae'r rhagolygon diweddaraf hefyd yn nodi pwysau parhaus. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i safonau byw y DU, sydd wedi'u mesur gan incwm gwirioneddol aelwydydd, ostwng 0.8% yn 2026 a chynyddu fymryn yn 2027. Mae cyfraddau llog a chostau benthyca yn ychwanegu pwysau pellach ar aelwydydd a busnesau ledled y DU.

Mae'r ffaith na phrofir y pwysau hyn yn gyfartal yn bwysig wrth wneud dewisiadau yn ymwneud â threthiant, gwariant a gwasanaethau cyhoeddus. Dyma un o'r rhesymau pam, wrth lunio'r Gyllideb hon, yr ydym wedi ystyried nid yn unig yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael ond yr effaith y bydd ein dewisiadau yn ei chael ar bobl a chymunedau ledled Cymru.

Mae Cymru yn wynebu newidiadau hirdymor sylweddol i'w heconomi

Rhaid i'r Gyllideb hefyd edrych y tu hwnt i'r cylch economaidd uniongyrchol. Mae newid hinsawdd, AI a newidiadau demograffig yn debygol o ail-lunio economi Cymru a'i chyllid cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Ymhlith y newidiadau hyn, y trawsnewid tuag at sefyllfa sero net yw un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol. Disgwylir iddo arwain at fanteision hirdymor ond bydd angen buddsoddi sylweddol hefyd. Mae gan AI y potensial i newid y ffordd y mae busnesau'n gweithredu, sut y mae pobl yn gweithio a sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Bydd newid demograffig yn newid gallu cynhyrchiol yr economi a natur y galw am wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r newidiadau hyn yn creu cyfleoedd a phwysau. Ein tasg felly yw nid yn unig rheoli'r sefyllfa ariannol sy'n ein hwynebu heddiw, ond defnyddio'r adnoddau sydd ar gael inni mewn ffyrdd sy'n cryfhau gallu Cymru i ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau.

Beth mae hyn yn ei olygu i'n Cyllideb

Gyda'i gilydd, mae'r pum cipolwg hyn yn egluro rhan bwysig o'r dewisiadau rydym wedi'u gwneud. Rydym yn gosod y Gyllideb hon yn erbyn cefndir o dwf araf, pwysau parhaus ar gyllid aelwydydd, galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus a newid economaidd sylweddol hirdymor. Mae'r dirywiad yn sefyllfa gyllidol ehangach y DU, gan gynnwys costau llog uwch ar ddyledion, yn rhoi pwysau pellach ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwariant cyhoeddus.

Rhaid gwneud dewisiadau yn sgil y cyd-destun hwnnw. Rydym wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer y gwasanaethau sy'n wynebu'r pwysau mwyaf, gan hefyd edrych ar draws y llywodraeth am gyfleoedd i ailflaenoriaethu adnoddau a'u defnyddio'n fwy effeithiol. Ond nid dim ond diogelu gwasanaethau heddiw yw ein hunig amcan. Mae economi gryfach, iachach a mwy cynhyrchiol yn y pen draw yn sylfaenol i wella safonau byw a gosod ein gwasanaethau cyhoeddus ar sail fwy cynaliadwy.

Cyllid Llywodraeth Cymru

Tros y cyfnod o dair blynedd a gwmpesir gan y Gyllideb Ddrafft hon, byddwn yn buddsoddi cyllid gwerth mwy na £60 biliwn. Daw'r adnoddau sy'n gwneud hyn yn bosibl o gyfuniad o setliad Llywodraeth y DU, trethiant datganoledig, mesurau benthyca a threfniadau ariannu eraill.

Mae Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hariannu drwy gyfuniad o refeniw a gynhyrchir gan drethi datganoledig a grant bloc gan Lywodraeth y DU.

Y cyllid sydd ar gael inni yn 2027-28 yw £28 biliwn. Mae hyn yn cynnwys cyllid adnoddau gwerth £24.49 biliwn ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd a chyllid cyfalaf gwerth £3.74 biliwn ar gyfer seilwaith ac adeiladau. Ar gyfer 2028-29, y cyllid sydd ar gael yw £29 biliwn: £25.42 biliwn o gyllid adnoddau gyda gostyngiad i'n cyllid cyfalaf i £3.68 biliwn. Ar gyfer 2029-30, dim ond setliad cyllid cyfalaf sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, sef £3.71 biliwn. Bydd Adolygiad Gwariant nesaf y DU yn cael ei gynnal yn ystod 2027, a bydd ein setliadau adnoddau a chyfalaf yn cael eu hailosod ar yr adeg honno am dair a phedair blynedd yn y drefn honno.

Grant Bloc Llywodraeth y DU

Daw'r rhan fwyaf o'n cyllid drwy grant bloc Llywodraeth y DU.

Caiff cyfran o gyfanswm yr arian a godir drwy drethi yn y DU ei ddyrannu i Gymru gan Lywodraeth y DU drwy'r grant bloc. Caiff addasiadau i'r grant bloc eu pennu gan ddefnyddio fformiwla Barnett. Defnyddir y fformiwla i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc yn dilyn cynnydd neu ostyngiad yng ngwariant Llywodraeth y DU ar raglenni yn Lloegr sydd wedi'u datganoli yng Nghymru. Gwneir addasiadau hefyd o ran newidiadau trethiant.

Mae manylion llawn yr addasiadau i'r grant bloc a'r symiau cysoni i gyfrif am alldro wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

Trethi Datganoledig

Ynghyd â'r grant bloc, mae trethiant datganoledig a threthiant lleol yn ddull hollbwysig y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i godi refeniw. Mae'r rhain yn helpu i ariannu'r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y mae pobl a busnesau ledled Cymru yn dibynnu arnynt. Trethi datganoledig Cymru yw Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac Ardrethi Annomestig.

Mae trethi datganoledig yn ariannu tua 20% o wariant Llywodraeth Cymru, a chyda'i gilydd, byddant yn cyfrannu £5.8 biliwn sydd ar gael i gyllideb Cymru yn 2027-28 a £6.2 biliwn yn 2028-29. Gan ystyried y gostyngiadau cysylltiedig i grant bloc Llywodraeth Cymru, disgwylir i'r trethi datganoledig ddarparu bron i £700 miliwn yn fwy yn 2027-28 nag a fyddai wedi bod yn bosibl heb ddatganoli trethi.

Ceir rhagor o fanylion am y Trethi Datganoledig a'u cyfraddau yn Atodiad B.

Benthyca Cyfalaf

O ran buddsoddi cyfalaf, gallwn hefyd ddefnyddio ein pwerau benthyca. Er mwyn ariannu ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf, rydym yn bwriadu benthyca £168 miliwn yn 2027-28, £172 miliwn yn 2028-29 a

£175 miliwn yn 2029-30. Mae hyn o fewn y terfynau benthyca blynyddol a osodir gan Lywodraeth y DU, a gaiff eu huwchraddio'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

Mae'r rhagolwg ad-dalu yn tybio cyfnod ad-dalu o 25 mlynedd a chyfradd llog o 5.66%. Amcangyfrifir y bydd costau cyffredinol benthyca yn £31.9 miliwn yn 2027-28, £40.6 miliwn yn 2028-29 a £49.3 miliwn yn 2029-30.

Er bod benthyca yn ariannu gweithgarwch buddsoddi ar draws holl feysydd Llywodraeth Cymru, caiff y costau eu talu gan y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Gellir dod o hyd i'r rhagolygon ad-dalu am y cyfnod yr ydym wedi pennu cynlluniau cyfalaf ar ei gyfer yn y Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario.

Gor-raglennu

Er mwyn rhoi'r cyfle gorau inni ddefnyddio ein hadnoddau cyfalaf yn llawn, mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer gor-raglennu ein cynlluniau cyfalaf ychydig, o 2%.

Cyllid Arloesol

Yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn ystyried sut rydym yn defnyddio ffurfiau newydd ac arloesol o gyllid pan allant gynnig buddsoddiadau ychwanegol o ran seilwaith, cyflymu'r gwaith cyflawni a dangos gwerth am arian. Mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn parhau i fod yn un o'r opsiynau hynny.

Cyllid Llywodraeth Cymru 2027 i 2028

Cyfanswm y cyllid o'r prif ffynonellau a ddangosir isod

Cydrannau Cyllid Cymru

Mae dod â'r cydrannau hyn at ei gilydd yn darparu'r sefyllfa gyllid gyffredinol ar gyfer y Gyllideb.



Benthyca cyfalaf gan Lywodraeth Cymru
£168 miliwn

Ad-daliadau arfaethedig benthyciadau cyfalaf
£18 miliwn

* Mae cyfanswm y trethi wedi'u datganoli'n llwyr yn cynnwys Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi.
Treth Trafodiadau Tir: £402m, Treth Gwarediadau Tirlenwi: £30m.



Benthyca cyfalaf gan Lywodraeth Cymru
£172 miliwn

Ad-daliadau arfaethedig benthyciadau cyfalaf
£22 miliwn

* Mae cyfanswm y trethi wedi'u datganoli'n llwyr yn cynnwyr Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi.
Treth Trafodiadau Tir: £432m, Treth Gwarediadau Tirlenwi: £31m.

	2027-28 Y Gyllideb Ddrafft £m	2027-28 Y Gyllideb Ddrafft £m	2029-30 Y Gyllideb Ddrafft £m
Adnoddau Cyllidol			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	18,684	19,288	-
Ardrethi Annomestig	1,190	1,310	-
Cyfraddau Treth Incwm Cymru	4,210	4,379	-
Y Dreth Trafodiadau Tir	402	432	-
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	30	31	-
Prif ad-daliad benthyca	-18	-22	-
Cyfanswm Adnoddau Cyllidol	**24,498**	**25,418**	**-**
Cyfalaf			
DEL Cyfalaf Cyffredinol	3,423	3,317	3,314
Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC)	152	191	217
Cyfanswm DEL Cyfalaf	**3,575**	**3,508**	**3,530**
Benthyca Cyfalaf	168	172	175
Cyfanswm y Gyllideb Gyfalaf	**3,744**	**3,680**	**3,705**
Cyfanswm y Gyllideb Adnoddau	**28,242**	**29,098**	**3,705**
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			
Cyllidol	44	43	
Anghyllidol	1,371	1,583	
Cyfalaf	1,452	1,437	1,500
Cyfanswm y Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	**2,867**	**3,063**	**1,500**
Cyfanswm Cyllid Cymru	**31,109**	**32,160**	**5,205**

Sut mae'r cyllid hwnnw yn cael ei ddyrannu

Mae dod â'r ffynonellau cyllid hyn at ei gilydd yn darparu'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi ein cynlluniau gwario. Mae'r tabl isod yn nodi sut mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddyrannu ar draws y Prif Grwpiau Gwariant dros gyfnod y Gyllideb Ddrafft hon.

Er mai yng ngwanwyn 2027 y bydd y Senedd yn pleidleisio ar y dyraniadau arfaethedig ar gyfer 2027-28, rydym yn darparu dyraniadau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod i alluogi ein partneriaid cyflawni i gynllunio'n hyderus ar gyfer y tymor hwy.

Mae'r dyraniadau dangosol hyn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer cynnal y gwaith cynllunio hwnnw, ond rydym yn cydnabod na all unrhyw gyllideb amlflwyddyn rag-weld pob newid mewn amgylchiadau. Byddwn yn adolygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol wrth i'n blaenoriaethau gael eu cyflawni, wrth i effaith arbedion effeithlonrwydd a diwygiadau ddod yn gliriach, ac wrth i bwysau neu gyfleoedd newydd ddod i'r amlwg. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb i amgylchiadau sy'n newid gan hefyd gynnal y sicrwydd tymor hwy y bwriedir i gyllideb amlflwyddyn ei ddarparu.

Dyraniadau Adnoddau Cyllidol

Prif Grwpiau Gwariant (MEGs)	**2027-28 Y Gyllideb Ddrafft £000oedd**	**2028-29 Cyllideb Ddrafft Ddangosol £000oedd**
Iechyd a Gofal	12,426,791	12,626,777
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio (ac eithrio ardrethi annomestig)	5,817,686	5,932,686
Addysg a'r Gymraeg	2,104,936	2,105,293
Menter, Cysylltedd ac Ynni	844,134	869,134
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	556,588	559,088
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	577,966	689,016
Diwylliant a Chwaraeon	127,338	132,338
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	593,707	607,418
Cyfanswm	**23,049,146**	**23,521,750**

Dyraniadau Cyfalaf (yn cynnwys Cyfalaf Trafodiadau Ariannol)

Prif Grwpiau Gwariant (MEGs)	2027-28 Y Gyllideb Ddrafft £000oedd	2028-29 Cyllideb Ddrafft Ddangosol £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2029-30
Iechyd a Gofal	694,669	673,549	673,549
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	1,395,876	1,397,906	1,448,177
Addysg a'r Gymraeg	405,103	405,074	391,045
Menter, Cysylltedd ac Ynni	838,730	761,430	784,620
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	345,513	351,413	316,913
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	20,625	20,627	20,587
Diwylliant a Chwaraeon	65,412	65,412	65,412
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	20,420	20,420	20,420
Cyfanswm	**3,786,348**	**3,695,831**	**3,720,723**

Gyda'i gilydd, mae'r dyraniadau hyn yn darparu'r sylfaen ariannol ar gyfer y buddsoddiadau a nodir yn Adran 2 ac ar gyfer cyflawni ein Rhaglen Lywodraethu.

Adran 4
Yr Atodiadau Technegol

“Byddwn yn ategu ein Cyllideb â gwybodaeth glir a thryloyw am y trefniadau cyllido a’r penderfyniadau technegol y mae ein cynlluniau wedi’u datblygu arnynt.”

Manylion Technegol

Mae'r adrannau blaenorol yn nodi'r hyn y mae'r Gyllideb hon yn ceisio ei gyflawni, y buddsoddiadau rydym yn eu gwneud a sut maent yn cael eu hariannu.

Mae'r adran hon yn darparu'r manylion technegol sy'n sail i'r cynlluniau hynny. Mae'n egluro'r addasiadau a'r penderfyniadau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd i lunio'r Gyllideb Ddrafft ac yn cyfeirio at y dyraniadau manwl, y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb a'r tablau ategol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Tros gyfnod y gyllideb amlflwyddyn hon, mae cyllid gwerth £250 miliwn yn cael ei roi i'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol, sef Comisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, a'r Comisiwn Etholiadol.

Caiff y cyllidebau hyn eu pennu ar wahân ac nid ydynt ar gael i Lywodraeth Cymru eu dyrannu. Cyfrifir amdanynt cyn inni sefydlu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru.

Unwaith y caiff y cyllid hwn ei gyfrif, mae'r adnoddau sy'n weddill yn darparu'r man cychwyn i'n galluogi i sefydlu ein llinellau sylfaen o ran gwariant.

Llinellau Sylfaen Adnoddau

Mae Cyllideb Derfynol 2026-27 wedi'i hailddatgan i gyd-fynd â'r portffolios Gweinidogol newydd, a dyma'r man cychwyn ar gyfer y Gyllideb hon.

O'r man cychwyn hwn, rydym wedyn wedi sefydlu llinellau sylfaen adnoddau diwygiedig sy'n adlewyrchu'r newidiadau technegol sy'n ofynnol cyn i Weinidogion wneud penderfyniadau pendant ynghylch dyrannu'r cyllid sydd ar gael.

Mae'r addasiadau hyn yn cynnwys trosglwyddiadau i Lywodraeth y DU ac ohoni at ddibenion penodol wedi'u clustnodi, newidiadau i beirianwaith y llywodraeth, addasiadau cyfrifyddu technegol a dyraniadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn a wneir drwy Ail Gyllideb Atodol 2026-27.

Trosglwyddiadau Gweithlu Llywodraeth Cymru

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn dryloyw ynglŷn â'r adnoddau y mae'n eu defnyddio i ariannu ei gweithlu. Yn flaenorol, roedd rhai o gostau staff Llywodraeth Cymru yn cael eu cyfrif o fewn cyllidebau rhaglenni adrannau unigol. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn newid hyn, gan ddod â chyllid staff at ei gilydd mewn un man yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

Mae hwn yn ailddosbarthiad o gyllidebau presennol, gan ddarparu darlun cliriach o gostau llawn gweithlu Llywodraeth Cymru yn ogystal â galluogi gwaith craffu mwy effeithiol. Yn flaenorol, roedd yn anodd nodi cyfanswm cost y gweithlu a gwahaniaethu rhwng costau staff a gwariant rhaglenni. Mae'r newid yn niwtral o ran cost ac nid yw'n newid y cyllid cyffredinol sydd ar gael ar gyfer blaenoriaethau Gweinidogol neu fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd dod â'r cyllidebau hyn at ei gilydd yn cryfhau rheolaeth ariannol ac yn gwella cysondeb wrth adrodd am y gweithlu a rhagamcanu yn ei gylch. Bydd hefyd yn darparu mwy o eglurder ynghylch yr adnoddau a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd y gwelliannau hyn o gymorth i'n cefnogi ni wrth ein gwaith o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus.

Addasiadau Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys addasiad technegol sy'n ymwneud â chost pensiynau'r gwasanaethau cyhoeddus. Yn dilyn prisiadau actiwaraidd diweddaraf o brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus heb eu hariannu, gan gynnwys cynlluniau'r GIG, Athrawon a'r Gwasanaeth Sifil, bydd cyfraddau cyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn gostwng o fis Ebrill 2027 ymlaen. Mae hyn yn golygu y bydd angen llai o gyllid ar gyflogwyr sy'n rhan o'r cynlluniau i fodloni'r un rhwymedigaethau o ran pensiynau.

Mae Llywodraeth y DU wedi trin y gostyngiad hwn mewn costau pensiwn fel addasiad ariannol technegol yn hytrach na phŵer gwario ychwanegol ar gyfer adrannau. O ganlyniad, mae grant bloc Llywodraeth Cymru wedi'i leihau drwy swm canlyniadol Barnett negyddol o fwy na £500 miliwn.

Er mwyn adlewyrchu hyn, rydym wedi gwneud addasiadau cyfatebol i linellau sylfaen y Prif Grwpiau Gwariant yr effeithir arnynt, gan ddileu cyllid sy'n cyfateb i'r gostyngiad amcangyfrifedig yn eu costau pensiwn. Er bod hyn yn lleihau cyllidebau cyhoeddedig y Prif Grwpiau Gwariant yr effeithir arnynt, nid yw'n ostyngiad yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau neu weithgareddau: mae'r costau y mae angen i'r cyllidebau hynny eu talu wedi gostwng yn ôl swm cyfatebol. Mae'r addasiad felly yn niwtral o ran cost ar gyfer sefydliadau yr effeithir arnynt.

Cyfeirir at yr addasiadau hyn yn gyffredinol fel addasiadau SCAPE (Cyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol).

Manylion pellach

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n cynlluniau gwario a'r penderfyniadau sy'n sail iddynt. Cyhoeddir gwybodaeth ariannol fanylach ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Mae'r Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario yn darparu rhagor o fanylion ar gyfansoddiad y Gyllideb, ac mae'r tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb yn nodi dyraniadau ar lefel fanylach.

Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn darparu'r wybodaeth ariannol fanwl sy'n sail i'r cynlluniau a nodir yn yr Adroddiad hwn ar y Gyllideb ac yn hybu gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft gan y Senedd a'i Phwyllgorau.

Atodiad A

Trethi Datganoledig

Mae'r Atodiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion am drethi datganoledig a threthi lleol a'u cyfraddau.

Cyfraddau a bandiau trethi datganoledig


Gall Llywodraeth Cymru amrywio chwe chyfradd treth incwm ar gyfer trethdalwyr Cymru1. Dyma'r prif gyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol a'r tair cyfradd eiddo gyfatebol yng Nghymru

Cyfraddau Treth Incwm Cymru

Caiff y cyfraddau eiddo ar wahân eu cyflwyno am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2027. Ar gyfer 2027-28, rydym yn bwriadu pennu pob un o chwe chyfradd Treth Incwm Cymru yn 10c. Mae hyn yn golygu y bydd pobl Cymru yn parhau i dalu'r un cyfraddau treth incwm â phobl yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r broses ar gyfer Cymru yn golygu bod Llywodraeth y DU yn lleihau 10c ar bob un o'r chwe chyfradd treth incwm i drethdalwyr Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn penderfynu a yw am bennu cyfraddau Cymru yn 10c, gan gadw cydraddoldeb rhwng trethdalwyr Cymru a threthdalwyr Lloegr, ynteu a yw am bennu cyfraddau gwahanol. Mae'r graff isod yn dangos hyn ar gyfer prif gyfraddau Cymru sy'n cynrychioli 98% o refeniw treth incwm ddatganoledig.

Y prif gyfraddau treth incwm arfaethedig yng Nghymru 2027-28



1 Yn y rhan fwyaf o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymru fel pobl sy'n byw yng Nghymru. Er hynny, ceir diffiniad llawn o dan adran 8 o Ddeddf Cymru 2014: www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

Ar gyfer y cyfraddau eiddo, mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu 4c ar ei chyfraddau ym mhob band. Mae hyn yn golygu y bydd trethdalwyr Cymru yn talu 10c ym mhob band i Lywodraeth Cymru ond yn talu 4c ychwanegol ym mhob band i Lywodraeth y DU yn berthynol i'r prif gyfraddau (14c, 34c a 39c ar gyfer pob band yn y drefn honno).

Y Dreth Trafodiadau Tir

Caiff y Dreth Trafodiadau Tir (TTT) ei chodi wrth i dir ac adeiladau gael eu prynu a'u lesio yng Nghymru ac mae'n codi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Ar gyfer 2027–28, mae cyfraddau a throthwyon TTT yn aros yr un fath.

Prif gyfraddau preswyl TTT

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £225,000	0%
Mwy na £225,000 i £400,000	6%
Mwy na £400,000 i £750,000	7.5%
Mwy na £750,000 i £1,500,000	10%
£1.5 miliwn a mwy	12%

Cyfraddau preswyl uwch TTT

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £180,000	5%
Mwy na £180,000 i £250,000	8.5%
Mwy na £250,000 i £400,000	10%
Mwy na £400,000 i £750,000	12.5%
Mwy na £750,000 i £1,500,000	15%
£1.5 miliwn a mwy	17%

Prif gyfraddau amhreswyl TTT

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £225,000	0%
Mwy na £225,000 i £250,000	1%
Mwy na £250,000 i £1 miliwn	5%
Mwy na £1 miliwn	6%

Cyfraddau rhent les amhreswyl TTT

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £225,000	0%
Mwy na £225,000 i £2 miliwn	1%
Mwy na £2 miliwn	2%

Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT) yn cyfrannu at leihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi ac yn cefnogi ein hamcanion amgylcheddol ehangach. Rydym yn bwriadu cynyddu'r gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig yn unol â chwyddiant a ragwelir, a fesurir drwy'r mynegai prisiau manwerthu (RPI). Bydd y gyfradd is yn cael ei chodi i gynnal y gwahaniaeth mewn termau arian parod o £122.10 y dunnell rhwng y gyfradd is a'r gyfradd safonol.

Cyfraddau TGT (cyfradd fesul tunnell)

Cyfradd	O 1 Ebrill 2026 ymlaen	O 1 Ebrill 2027 ymlaen
Safonol	£130.75	£136.70
Is	£8.65	£14.60
Gwarediadau anawdurdodedig	£196.15	£205.05

Ardrethi Annomestig

Mae ardrethi annomestig, neu ardrethi busnes, yn cael eu codi ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig, gan gynnwys siopau, swyddfeydd, tafarndai, warysau, ffatrïoedd, tai gwyliau neu dai llety, a meysydd parcio.

Ym mis Medi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y newidiadau cynnar yr ydym yn eu gwneud i gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ailgydbwyso ardrethi annomestig i gefnogi busnesau'r stryd fawr ym maes lletygarwch, hamdden a manwerthu yn well. Bydd y lluosydd is a gymhwysir ar hyn o bryd i siopau manwerthu yn cael ei ymestyn i letygarwch bwyd a diod bach a chanolig cymwys, llety ymwelwyr ac eiddo hamdden, gan ddarparu gostyngiad parhaol o 30% mewn biliau ardrethi. Cymeradwywyd rheoliadau i roi effaith i'r newidiadau hyn, o 1 Ebrill 2027 ymlaen, gan y Senedd ar 3 Tachwedd.

Bydd rhagor o fanylion am drefniadau ardrethi annomestig ar gyfer 2027-28, gan gynnwys gwerthoedd y lluosyddion, yn cael eu pennu fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ein Cyllideb Derfynol.

Adran B

Trethi Datganoledig

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r rhagolygon refeniw treth datganoledig diweddaraf a'r manylion am sut maent yn effeithio ar Gyllideb Llywodraeth Cymru.

Rhagolygon refeniw o drethi datganoledig ac addasiadau i'r grant bloc

Mae datganoli trethi yn effeithio ar Gyllideb Llywodraeth Cymru mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'r refeniw o drethi datganoledig yn gyfran sylweddol o gyfanswm y cyllid ar gyfer y Gyllideb (sef, ynghyd ag Ardrethi Annomestig, tua 20%). Yn ail, mae gostyngiadau i'r grant gan Lywodraeth y DU, a elwir yn addasiadau i'r grant bloc, yn cyd-fynd â'r refeniw hwn.

Roedd lefel gychwynnol yr addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar y refeniw yng Nghymru o'r dreth berthnasol adeg datganoli. Mae'r newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn yr addasiadau yn seiliedig ar dwf yn y ffrydiau refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r mecanweithiau manwl wedi'u nodi yn y Cytundeb ar Fframwaith Cyllidol Llywodraeth Cymru.

Mae'r amcangyfrifon ar gyfer refeniw o drethi datganoledig a ddefnyddir yn y Gyllideb yn rhagolygon a gynhyrchir yn annibynnol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), yn unol â'r cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar ragolygon refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer yr un flwyddyn, eto gan yr OBR.

Mae manylion y rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru a'r trethi perthnasol yng Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n sail i'r addasiadau i'r grant bloc wedi'u nodi yn y Rhagolwg Trethi Cymreig diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr OBR ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

Mae rhan gyntaf yr atodiad hwn yn nodi effaith net datganoli trethi – y gwahaniaeth rhwng refeniw o drethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc bob blwyddyn.

Gan fod effaith gyllidebol datganoli trethi yn seiliedig ar ragolygon, mae angen proses gysoni unwaith y bydd gwybodaeth alldro flynyddol ar gael. Caiff symiau cysoni eu cymhwyso i'r Gyllideb mewn blynyddoedd diweddarach. Mae ail ran yr adroddiad hwn yn dangos y set ddiweddaraf o symiau cysoni.

Mae'r drydedd ran yn nodi sut y mae refeniw, addasiadau i'r grant bloc a symiau cysoni yn effeithio ar y ffynonellau cyllid yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2027-28 a 2028-29.

Adran 1: Refeniw ac Addasiadau i'r Grant Bloc

Mae'r adran hon yn cynnwys y rhagolygon diweddaraf ar gyfer refeniw o drethi, ochr yn ochr ag alldro ar gyfer blynyddoedd y mae'r alldro ar gael ar eu cyfer. Mae'r rhain wedi'u nodi isod, ynghyd â'r alldro a'r rhagolygon ar gyfer yr addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc.

Alldro a Rhagolygon Refeniw o Drethi ac Addasiadau i'r Grant Bloc (£m)

	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Refeniw					
Cyfraddau Treth Incwm Cymru	3,300	3,601	3,906	4,081	4,240
Y Dreth Trafodiadau Tir	341	363	374	402	432
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	34	32	29	30	31
Cyfanswm	**3,675**	**3,997**	**4,309**	**4,514**	**4,703**
Addasiadau i'r Grant Bloc					
Cyfraddau Treth Incwm Cymru	-3,001	-3,235	-3,469	-3,590	-3,708
Y Dreth Trafodiadau Tir	-283	-308	-306	-342	-383
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	-19	-24	-16	-15	-18
Cyfanswm	**-3,303**	**-3,567**	**-3,791**	**-3,947**	**-4,109**
Effaith net ar refeniw					
Cyfraddau Treth Incwm Cymru	299	366	438	491	532
Y Dreth Trafodiadau Tir	58	55	69	60	48
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	15	8	12	16	13
Cyfanswm	**372**	**429**	**518**	**567**	**594**

Allwedd - mae'r colofnau wedi'u cysgodi yn cyfeirio at alldro

Mae'r rhagolygon cyffredinol ar gyfer effaith refeniw net trethiant datganoledig yn gadarnhaol, gan gynyddu £194 miliwn rhwng yr alldro llawn diweddaraf ar gyfer 2024-24 a'r rhagolwg ar gyfer 2027-28.

Adran 2: Symiau cysoni

Nid yw gwybodaeth alldro ar gyfer refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) na'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc ond ar gael tua 16 mis ar ôl diwedd y flwyddyn berthnasol. Cyhoeddwyd yr wybodaeth alldro ddiweddaraf ar gyfer 2024 ym mis Gorffennaf eleni.

Mae'r ddwy elfen yn sefydlog at ddibenion cyllidebol gan ddefnyddio rhagolygon yr OBR o'r hydref blaenorol. Cyhoeddwyd nodyn technegol ar y cyd â Thrysorlys EF ar 27 Awst, yn rhoi manylion y symiau cysoni ar gyfer 2024-25. Ar gyfer 2025-26 a 2026-27, amcangyfrifir symiau cysoni gan ddefnyddio'r rhagolwg diweddaraf. Dangosir symiau cysoni gwirioneddol a rhagolygol isod:

Symiau cysoni, alldro a rhagolygon (£m)

	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Cyfraddau Treth Incwm Cymru				
Yn cael eu defnyddio mewn Cyllidebau				
Refeniw	2,795	3,171	3,462	3,804
Addasiadau i'r Grant Bloc	-2,733	-3,017	-3,262	-3,444
Alldro a'r rhagolygon diweddaraf				
Refeniw	2,968	3,300	3,601	3,906
Addasiadau i'r Grant Bloc	-2,782	-3,001	-3,235	-3,469
Symiau cysoni				
Refeniw	173	129	139	102
Addasiadau i'r Grant Bloc	-49	17	26	-25
Trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn				
Addasiadau i'r Grant Bloc a ddefnyddir mewn Cyllidebau				
Y Dreth Trafodiadau Tir	-241	-259	-303	-306
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	-21	-20	-21	-16
Alldro'r Addasiadau i'r Grant Bloc a'r rhagolygon diweddaraf				
Y Dreth Trafodiadau Tir	-237	-283	-308	-306
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	-19	-19	-24	-16
Symiau cysoni				
Y Dreth Trafodiadau Tir	4	-24	-5	
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	**2**	**0**	**-3**	

Mae data alldro ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi) a threthi cyfatebol y DU yn fwy amserol ac maent bellach ar gael hyd at 2025-26. Fel yn achos CTIC, gosodir yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn gan ddefnyddio rhagolygon yr hydref blaenorol ond, yn wahanol i CTIC, fe'u hadolygir yn ystod y flwyddyn hefyd. Mae hyn yn golygu bod y symiau cysoni ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc yn tueddu i fod yn gymharol fach. Mae'r rhain i'w gweld yn y tabl hefyd. (Nid oes unrhyw gysoni ar gyfer y refeniw o'r trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn eu hunain, gan fod alldro yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar unwaith.)

Adran 3: Rhagolygon a symiau cysoni yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd wybodaeth o'r ddwy adran gyntaf i ddangos yr effaith gyffredinol ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2027-28 a 2028-29.

Mae'r symiau cysoni ar gyfer refeniw CTIC a'r addasiadau i'r grant bloc yn cael eu cymhwyso i'r Gyllideb 3 blynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn perthyn iddi. Mae symiau cysoni 2024-25 yn cael eu cysoni, felly, i Gyllideb 2027-28 a'r symiau cysoni a ragwelir ar gyfer 2025-26 i 2028-29.

Mae'r cysoni ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc sy'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu cymhwyso 2 flynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn perthyn iddi. Mae symiau cysoni 2025-26 yn cael eu cymhwyso yn 2027-28.

Rhagolygon a symiau cysoni yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2027-28 (£m)

	Cyllideb Ddrafft Tachwedd 2026	
	2027-28	2028-29
Refeniw o drethi		
Refeniw CTIC	4,081	4,240
Symiau cysoni refeniw CTIC	129	139
Cyfanswm CTIC	**4,210**	**4,379**
Y Dreth Trafodiadau Tir	402	432
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	30	31
Cyfanswm refeniw trethi datganoledig	**4,643**	**4,842**
Addasiadau i'r Grant Bloc		
Cyfraddau Treth Incwm Cymru	-3,590	-3,708
Y Dreth Trafodiadau Tir	**-342**	**-383**
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	-15	-18

	Cyllideb Ddrafft Tachwedd 2026	
	2027-28	2028-29
Symiau cysoni o flynyddoedd blaenorol		
Cyfraddau Treth Incwm Cymru	17	26
Y Dreth Trafodiadau Tir	-5	0
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	**-3**	**0**
Cyfanswm		
Cyfraddau Treth Incwm Cymru	-3,573	-3,681
Y Dreth Trafodiadau Tir	-347	-383
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	-18	-18
Cyfanswm yr addasiadau i'r grant bloc	**-3,939**	**-4,083**
Cyfanswm yr effaith net ar y gyllideb	**704**	**760**

Effaith net gyffredinol trethiant datganoledig ar y gyllideb yw +£704 miliwn yn 2027-28 a +£760 miliwn yn 2028-29, gan gynnwys symiau cysoni mewn perthynas â'r blynyddoedd blaenorol o +£137 miliwn a +£165 miliwn yn y ddwy flynedd.

Atodiad C: Canlyniadau buddsoddi cyfalaf

Prif Ganlyniadau Strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seiliwaith Cymru a gyflawnir drwy Raglen Gyfalaf pob MEG

Maes Llesiant	Rhif	Canlyniad Strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru	Iechyd, Gofal ac Atal	Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	Y Gymraeg ac Addysg	Menter, Cysylltedd ac Ynni	Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	Diwylliant a Chwaraeon	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
Yr Amgylchedd	1	Datgarboneiddio a lleihau nwyon tŷ gwydr	■	■	■	■	■		■	■
	2	Buddsoddi mewn bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol					■			
	3	Gwella ansawdd aer a dŵr					■			
	4	Lleihau defnyddio adnoddau naturiol mewn modd anghynaliadwy	■			■	■	■		■
Cymdeithasol	5	Gwella a diogelu iechyd corfforol, diogelwch a llesiant pobl Cymru	■	■	■	■	■	■	■	■
	6	Gwella a diogelu iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru	■	■	■			■	■	
	7	Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol	■	■	■			■	■	■
	8	Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol	■	■	■			■	■	■
Economaidd	9	Cymorth i godi lefelau cyflogaeth ledled Cymru	■	■		■	■			
	10	Cymorth i wella cynhyrchiant busnesau	■			■	■			■
	11	Cynyddu incwm gwirioneddol aelwydydd		■	■	■	■			
	12	Gwella canlyniadau addysgol			■					
Diwylliannol	13	Gwella mynediad at y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni			■				■	■
	14	Hybu mynediad at weithgareddau diwylliannol a chyfranogiad ynddynt, gan gynnwys y celfyddydau a threftadaeth				■			■	
	15	Codi lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden			■				■	
	16	Gwella buddsoddiad mewn cymunedau ar draws Cymru	■	■	■	■	■	■	■	■